

Galwad am Dystiolaeth: dyfodol cymunedau Cymraeg (ffurflen ymateb)

Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn gofyn am dystiolaeth am sut gellir cryfhau cymunedau Cymraeg.

Gallwch gyflwyno dystiolaeth neu safbwynt am unrhyw fater sydd yn eich tyb chi'n berthnasol i les cymunedau Cymraeg.

Onid gan fod y comisiwn yn awyddus i glywed am rai materion penodol, mae wedi llunio rhai cwestiynau i'ch cynorthwyo.

Nid oes rhaid i chi ymateb i bob cwestiwn. Cyflwynwch dystiolaeth lle mae gennych wybodaeth neu farn berthnasol.

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 13 Ionawr 2023

E-bost i: cymraeg@llyw.cymru

postio i:

Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Is-adran y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Doc Fictoria

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1TH

CYNNWYS:

Cyflwyniad i'r ymatebion

Ymatebion i'r cwestiynau

Atodiadau A, B ac C



DYFODOL I'R IAITH

Llais i'r iaith

Ymateb Dyfodol i'r iaith

Mae Dyfodol i'r Iaith yn fudiad lobio amhleidiol sydd yn agored i bawb sydd am weld y Gymraeg yn ffynnu. Ei nod yw sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn rhan ganolog o fywyd Cymru a bod y Gymraeg yn parhau'n fater byw ar yr agenda gwleidyddol. Mae Dyfodol yn gweithredu drwy ddulliau cyfansoddiadol yn unig ac yn dylanwadu ar Lywodraeth Cymru, Cyngorau Sir, y pleidiau gwleidyddol, arweinwyr cyrff cyhoeddus ac eraill i roi'r Gymraeg wrth galon eu polisiau a'u gweithgareddau. Nid ydym yn derbyn arian o'r pwrs cyhoeddus ac yn gwbl annibynnol ein barn. Cyflwynwyd ein sylwadau isod ar y seiliau hynny.

Sail ein hymateb

Sail sylfaenol cymunedau Cymraeg yw mwyafrif aelwydydd lle mae'r Gymraeg yn briod iaith a drosglwyddir o un genhedlaeth i'r nesa' yn y cartref. I ddiogelu cymunedau felly i'r dyfodol, mae'n allweddol ceisio gwarantu parhad yr iaith fel iaith yr aelwyd o genhedlaeth i genhedlaeth.

Heb gymunedau fel hyn, mae'r Gymraeg heb ei hangori yn nhir daearyddol Cymru fel y brif iaith. O ganlyniad, mae'n dod yn gwbl ddibynnol ar fympwy sefydliadau i'w chynnal a'i throsglwyddo - y gyfundrefn addysg, byd gwaith, ayyb.

Nid yn unig mae cymunedau Cymraeg naturiol yn cynnal yr iaith yn yr ardal yna, ond maent hefyd yn gweithredu fel pwerdai iaith yn cynhyrchu mwy o siaradwyr Cymraeg sy'n symud o'r ardal ac i drigfannau megis Caerdydd, sydd yn eu tro yn gweld cynnydd ymysg siaradwyr Cymraeg a newid yn y patrwm traddodiadol o'r iaith fel iaith fyw cefn gwlad. Ond gyda dyfodol cymunedau Cymraeg mewn perygl, fel a welwyd yng Nghyfrifiad 2021, rhaid wrth gyfres o fesurau radical i sicrhau na welir dirywiad pellach y cymunedau cynyddol brin yma. 'Does ond angen craffu ar sefyllfa rhannau o Sir Gaerfyrddin i weld bod y sefyllfa yn enghraifft o ba mor gyflym y gall yr iaith ddirywio ac o'r herwydd bod angen cymryd camau cadarnach i'w hyrwyddo yn y sir honno ac mewn siroedd eraill lle mae cymunedau Cymraeg. Yr hyn sydd yn amlwg hefyd yw effaith mewnlifiad i'r sir hon ac i siroedd eraill Cymraeg.

Rydym felly yn croesawu'n fawr Gomisiwn Cymunedau Cymraeg ac yn dymuno cyflwyno'r sylwadau isod i'r Comisiwn eu hystyried. Credwn mai dyma'r unig gyfle bellach i geisio arbed y cymunedau gwerthfawr hyn ac mae angen manteisio'n fawr felly ar y cyfle a'r ewylllys da sy'n bodoli tuag atynt.

Nodwn y bydd dau gam i waith y comisiwn: y cam cyntaf fydd gwneud argymhellion am gymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith y mwyafrif (neu lle bu hyn yn wir tan yn gymharol ddiweddar); yr ail gam fydd edrych ar ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol mewn rhannau eraill o Gymru.

Yn y ymateb hwn rydym yn cynnig awgrymiadau am gymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith y mwyafrif (neu lle bu hyn yn wir tan yn gymharol ddiweddar), gan gyfeirio atynt fel cymunedau Cymraeg, yn ôl diffiniad y Comisiwn.

Mae ymateb Dyfodol i'r Iaith felly yn benodol ar gyfer ymdrin ag ardaloedd lle mae 40% o'r boblogaeth yn siarad yr iaith o gofio bod nifer o gymunedau felly yn nes at 50% a thros hynny ddegawd yn ôl. Annoeth fyddai eu hepgor o'r cylch gorchwyl hwn, felly, oherwydd y gallai ymyrraeth arwain at weld twf pellach yn y ganran.

Rydym hefyd yn awyddus iawn i gyflwyno crynodeb llafar o'n sylwadau wyneb yn wyneb gerbron y Comisiwn pan fydd hynny'n gyfleus.

Rhaid i ni fynegi ein siom, fodd bynnag, nad yw canlyniadau iaith Cyfrifiad 2021 wedi eu gwneud ar gael ar gyfer ardaloedd bach ac ardaloedd etholiadol. Mae map o Gymru wedi ymddangos ar sail ardaloedd bach (ACEHI / LSOAs) ond heb enwau'r ardaloedd. Mae 1917 o'r ardaloedd hyn, a hoffem gadw'r hawl i ychwanegu at ein sylwadau ar sail yr wybodaeth am y Gymraeg a ddaw pan gyhoeddir y canlyniadau hyn, gan fod y rhain yn debygol o fod yn allweddol wrth drafod cymunedau Cymraeg. Diolch ichi am ganiatáu hyn i ni.

Prif Weithredwr: Dylan Bryn Roberts

Llywydd: Cynog Dafis

Cadeirydd: Heini Gruffudd Trysorydd: Huw Edwards

Aelodau'r Bwrdd: Elaine Edwards, Eifion Lloyd Jones, Wyn Thomas, Catrin Alun, Iwan Edgar, Dr Ruth Richards, Robat Gruffudd

Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith, dylanbryn@dyfodol.net 07989393445

Heini Gruffudd, Cadeirydd Dyfodol i'r Iaith, heini@gruffudd.org 07983506805

Sut dylid ymateb i newidiadau diweddar yng Nghymru?

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Cymru wedi profi sawl newid pellgyrhaeddol. Gadawodd y Deyrnas Gyfunol yr Undeb Ewropeaidd, effeithiodd coronafeirws (COVID-19) ar ein cymunedau, lledaenodd arferion cymdeithasol newydd (fel gweithio o adref), ac mae argyfwng o ran costau byw ac ynni. Mae'n bosib y bydd rhai o'r newidiadau hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg.

Cwestiwn 1: Pa gamau y dylid eu cymryd er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg (neu'r Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg) o ganlyniad i unrhyw un o'r datblygiadau hyn?

1. Monitro graddfa mewnlifiad yn sail i gymathu

Daeth yn bryd i ni fonitro'n ofalus a thrylwyr y mewnfudo gan newydd-ddyfodiaid i gymunedau Cymraeg. Digwydd hyn mewn sawl modd gan gynnwys i dai haf, i brynu tŷ haf, i brynu tŷ ar y farchnad agored a thrigo yma, i symud i dŷ cymdeithasol, tŷ rhent preifat, neu garafán statig.

Yn ystod Covid 19, effeithiwyd ar natur poblogaeth nifer o gymunedau Cymraeg. Penderfynodd nifer o bobl o Loegr symud i ardaloedd gwledig lle 'roedd cyfle i weithio o'u cartrefi. Penderfynodd nifer ddod i Gymru ac yn arbennig i'r ardaloedd gorllewinol lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf. Nid yw hyn yn syndod gan fod bwlch eithaf sylweddol rhwng prisiau tai mewn sawl ardal o Loegr a'r rhelyw o orllewin Cymru. Gwyddom fod 24% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi eu geni tu allan i Gymru yn 2011. Mae canlyniad Cyfrifiad 2021 yn dangos bod y ganran a anwyd "tu allan i Gymru" bellach wedi cyrraedd 26.4% yn y sir. Mae hyn yn egluro mwy na hanner y gostyngiad o 4.1% o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin ers 2011.

Mae'r mewnlifiad diweddaraf ond yn tanlinellu'r realiti bod o leiaf dair carfan o bobl bellach yn byw yn y siroedd Cymreiciaf, y siaradwyr Cymraeg, brodorion di-Gymraeg a mewnfudwyr. Mae angen strategaethau amrywiol a dychmygus os ydym i lwyddo i gymathu y carfannau di-Gymraeg.

Credwn fod angen i Awdurdodau Lleol allu monitro nifer a chanran o bobl ddi-Gymraeg sy'n symud i fyw i gymunedau Cymraeg fel sail i asesu effeithiolrwydd gweithredu cyfres o bolisiau gan gynnwys polisiau cymathu a dysgu iaith i newydd-ddyfodiaid. Mae angen gwneud hyn hefyd i asesu a oes angen mabwysiadu polisiau gwahanol neu ychwanegol er mwyn cymathu pobl a'u hannog i ddod yn aelodau cyflawn o'r gymuned Gymraeg leol.

Credwn y dylid cael gofyniad cyfreithiol ynghlwm wrth brynu tŷ gan unigolyn o'r tu allan i'r ardal leol (e.e. y tu hwnt i'r awdurdod lleol) i dderbyn gwybodaeth lawn am natur ieithyddol Cymraeg yr ardal leol a'r ddealltwriaeth a'r disgwyliad y bydd nifer o weithgareddau a gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yn ddiofyn yn y Gymraeg, yn ogystal â gwybodaeth am y system addysg. Dylent hefyd dderbyn gwybodaeth lawn am y cyfleoedd i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg gyda'r disgwyliad y byddant yn medru dod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas Gymraeg leol. Mae angen clymu hyn i mewn i'r gyfundrefn Addysg ar gyfer teuluoedd sy'n symud i fyw, a hefyd i fyd gwaith lle bydd oedolion yn chwilio am gyflogaeth o'r newydd neu'n parhau yn hunan- gyflogedig ond mewn ardal ieithyddol newydd.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

2. Arwerthwyr Tai i hysbysu

Gwyddom fod ambell i Fenter Iaith wedi ceisio canfod tarddiad prynwyr tai adeg y pandemig a'r mewnlifiad a'i dilynodd. Ymddengys mai amharod oedd nifer o arwerthwyr i gydweithio o bosib' am mai gwneud elw yw prif nod y cwmnïau hyn. Credwn y byddai gosod gofyniad cyfreithiol ar arwerthwyr tai a'r cyfreithwyr yng ngofal y gwerthiant i hysbysu'r Cyngor Sir lleol am bob pryniant gan bobl "o'r tu allan i Gymru" yn gam ymlaen.

Yn ychwanegol at hyn, mae angen gosod disgwyliad ar bob arwerthwr eiddo i gynnwys adran am bwysigrwydd iaith a diwylliant yr ardal, ynghyd â manylion sut i gysylltu â chanolfannau dysgu Cymraeg lleol, mewn pecynnau gwybodaeth i ddarparu brynwyr tai, boed yn symud yn lleol neu o bell. Gwyddom fod nifer o'r cynghorau wedi darparu gwybodaeth am y Gymraeg i fewnfudwyr, ond anwadal mae'r ddarpariaeth wedi bod o bersbectif cenedlaethol.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

3. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision amlieithrwydd

Dylai ysgolion cymunedau Cymraeg warantu cyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion ar natur amlieithrwydd a bod dwyieithrwydd Cymreig yn rhan o batrwm byd-eang lle gall dros 65% o holl drigolion y byd siarad o leiaf dwy iaith.

Sylwadau cefndirol:

Un o sgil effeithiau anffodus Brexit yw cryfhau'r meddylfryd Eingl-Americanaidd uniaith. O 1982 tan 2010 bu corff fel Biwro Ieithoedd Lleiafrifol ac ambell fudiad yng Nghymru yn ceisio codi ymwybyddiaeth o leiafrifoedd ieithyddol eraill. Bwriad hyn oedd dangos bod lleiafrifoedd ieithyddol eraill yn wynebu heriau ac nad rhywbeth unigryw ac od yw bod mewn sefyllfa o'r fath. [Roedd CAER [Cymdeithas Addysg Ewrop y Rhanbarthau] yn trefnu ymweliadau gan ddisgyblion o blith lleiafrifoedd Ewrop i ysgolion cyfrwng Cymraeg Cymru gyda'r bwriad o rannu profiadau a syniadau.] Byddai'n fuddiol cynnwys elfen yn y Cwricwlwm newydd yn sôn am leiafrifoedd ieithyddol megis siaradwyr Sard, Galisiaid, Ladiniaid a Llydawyr. Yn naturiol, byddai modd ehangu'r cymariaethau y tu hwnt i Ewrop.

4. Sefydlu Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig

Oherwydd arwyddocâd a gwerth ieithyddol a diwylliannol arbennig cymunedau Cymraeg, credwn y dylid rhoi statws cyfreithiol arbennig i ddynodi hynny megis Ardal(oedd) o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig. Byddai hyn yn seiliedig ar wardiau neu gymunedau lle mae trothwy canran siaradwyr Cymraeg uwchlaw lefel benodol. Cynigiwn 60% fel trothwy ymarferol. Byddai i'r ardaloedd hyn statws uwch o warchodaeth i'r iaith mewn pob math o ddatblygiadau cynllunio gwlad a thref, gyda phwysoliad uwch yn cael ei gymryd gan swyddogion cynllunio a swyddog iaith Awdurdod Lleol ar asesiadau effaith ieithyddol neu ddatganiadau iaith. Byddai'n ddynodiad tebyg i Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, mewn gwirionedd.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

5. Cynaliadwyedd (ac atgyfnerthu) cymdeithasau gweithgareddau

Bu lleihad sylweddol yn nifer y rhain yn sgil Coronafeirws, e.e. corau, cylchoedd drama, cyfarfodydd o bob math. Yn yr un modd, bu lleihad yn nifer y canolfannau cymdeithasu traddodiadol gyda chau capeli ac ysgolion bach.

Yr her sy'n ein hwynebu yw sut mae adfywio ac atgyfnerthu'r cymdeithasau gweithgaredd hyn. Awgrymw'n:

- i. Annog cymryd rhan eto, e.e. hyrwyddo map digwyddiadau fel a geir yng Ngwynedd.
- ii. Cymraeg i Oedolion i roi pwyslais newydd ar gynnal digwyddiadau cymunedol
- iii. Ysgolion i fod yn ganolfannau digwyddiadau a chymdeithasu beunyddiol i fwrlwm o weithgaredd Cymraeg
- iv. Rhaglenni chwaraeon a diwylliant poblogaidd i bobl ifanc trwy Wasanaethau Ieuenctid, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, clybiau chwaraeon a diddordeb, ayyb.

v. Sefydlu mwy o bartneriaethau adfywio cymunedol rhwng cyrff sy'n bodoli'n lleol, e.e. Mentrau Iaith, Ffermwyr Ifanc, Clybiau Pêl-droed a rygbi, clybiau diddordeb, gwaith gwirfoddoli cymunedol e.e. Partneriaeth Ogwen, Antur Aelhaearn ayyb.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

Cwestiwn 2: Sut gallwn ni dargedu cefnogaeth ar gyfer cymunedau Cymraeg yn y dull mwyaf effeithiol?

1. Dynodi cymunedau Cymraeg - fel Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig ('AAIA')

Mae angen diffinio'n fanwl beth a olygir wrth 'gymuned Gymraeg', gan gynnwys 'canran o siaradwyr Cymraeg' a 'chymuned ieithyddol ddaearyddol'. Credwn fod angen trothwy is na 70% bellach gyda diflaniad wardiau/cymunedau 70%+ o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr a Cheredigion a throthwy o dan 50% yn sirol gronnus. Ein barn yw bod angen diffinio cymunedau Cymraeg fel rhai lle mae 40%+ yn gallu siarad Cymraeg. Ond eto i gyd, mae angen categorïau o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol gyda'r warchodaeth/monitro mwyaf trylwyr mewn cymunedau 60%+ o siaradwyr Cymraeg (sef Gwynedd, Ynys Môn ac ardal Uwch-Aled yng Nghonwy).

Casglwn ni mai cymunedau neu adrannau etholiadol sydd mewn golwg yma yn hytrach nag ardaloedd ehangach megis Dwyfor neu siroedd cyfan. Mae angen felly edrych ar ganrannau adrannau etholiadol ledled Cymru yn y lle cyntaf a chynnig ein bod ni'n argymhell graddoli dynodiadau Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol tebyg i'r canlynol:

- Categori 1 Uchaf: (i) 70%+ , a (ii) 60%-69%
- Categori 2 Canolig: 40-59%
- Categori 3 Sylfaenol: 26-39%
- Categori 4 Gwaelodlin: 0-25%

NODER: Dylid cadw mewn cof nad yw nifer helaeth o'r adrannau etholiadol yn rhai niferus o ran poblogaeth. Yn absenoldeb cyhoeddi ffugyrau ar gyfer Cyfrifiad 2021 nodwn isod grynodeb o'r adrannau etholiadol ar sail Cyfrifiad 2011.

Categori 1 Uchaf (i) : 49 ward i gyd/ 3 sir. 40 yng Ngwynedd, 8 yn Ynys Môn a ward Uwchaled yn unig yng Nghonwy.

Categori 1 Uchaf (ii) : 31 ward i gyd/ 7 sir. 10 ward yng Ngwynedd, 8 yn Ynys Môn, 5 yn Sir Gaerfyrddin, 4 yng Nghonwy, 2 yng Ngheredigion ac 1 yn Sir Benfro a Chastell Nedd/Port Talbot.

Categori 2: 135 ward i gyd/ 9 sir. 35 yn Sir Gâr, 31 yng Ngheredigion, 22 yn Ynys Môn, 14 yng Ngwynedd, 8 yng Nghonwy, 8 ym Mhowys, 7 yn Sir Benfro, 7 yn Ninbych a 3 yng Nghastell Nedd/Port Talbot.

Rhestrir pob un adran etholiadol o dan Gategori 1 Uchel (i), Uchel (ii) a 2 yn Atodiad A.

Pe baem yn dynodi cymunedau Cymraeg felly yn rhai o 40%+, gwelwn nad yw'r holl argymhellion ond yn berthnasol i 9 sir neu draean o siroedd Cymru. I bwrpas cynllunio bwriadus, byddwn yn clystyru Categori 1 (i) ac 1 (ii) gyda'i gilydd a chadw Categori 2 ar ei liwt ei hunan oherwydd mae iddynt nodweddion tra gwahanol gan gynnwys tebygolrwydd arferion siarad Saesneg mwy cyffredin ymysg siaradwyr Cymraeg. Mewn geiriau eraill, perthyn Categori 1 (i) ac 1 (ii) i Wynedd yn bennaf, Môn i raddau llai ac i raddau bychain yn unig, Conwy, Penfro a Chastell Nedd/Port Talbot.

Perthyn Categori 2 yn bennaf i Sir Gâr, Ceredigion, Môn, Gwynedd, Conwy, Powys, Penfro ac i raddau llai Castell Nedd/Port Talbot.

Iaith a chynefin

Gyda'r dehongliad yma, felly, y cyflwynwn ein hymateb i'r ffurflen hon a hynny ar sail dau brif reswm. Yn gyntaf, dyma unig gyfle a chyfle olaf cymunedau 60%+ i sicrhau ymyrraeth ganolog a lleol ar ôl degawdau lawer o fudandod gwleidyddol i alwadau lu. Yn ail, er gwaethaf symudolodd cymdeithasol cynyddol, mae hyn yn fater mwy sylfaenol nag iaith: mae'n ymwneud â pherthynas pobl a chynefin, a chynefin yn aml iawn lle cawsant eu magu a lle mae eu gwreiddiau yn ddwfn. Mae annhegwch cymdeithasol ac economaidd dybryd ar waith yma a dyletswydd Llywodraeth Cymru yw ymateb i hynny. Rydym yn croesawu hynny'n fawr ac yn mawr obeithio y gwelwn weithredu bwriadus a diffuant.

Dirywiad ieithyddol heb ymyrraeth ddwys

Gellir rhagweld diwedd cymunedau Categori 1 o fewn 20 mlynedd oni fydd ymyrraeth ddwys i wydroi'r patrwm o ddirywiad ieithyddol. Proses o drawsnewid ieithyddol yw hyn, o'r Gymraeg i'r Saesneg, gyda charfan ieithyddol yn nodweddu cymunedau. Dyna her fawr cymunedau Cymraeg heddiw. Daw mewnllifiad â'r Saesneg i'r ardaloedd; caiff cyfran o siaradwyr Cymraeg eu Seisnigeiddio; ceir tuedd gynyddol o switsio côd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn rhai peuoedd. Hyd yn oed mewn cymunedau Cymraeg cadarn, rhaid cofio bod peuoedd iaith Saesneg ar wahân yn cael eu creu ac yn bodoli, boed yn yr ysgol neu yn y gymuned a thrwy gyfrwng y cyfryngau torfol. Felly rhaid gochel rhag rhagdybio fod unrhyw ward yn ddiogel, oherwydd gall y sefyllfa newid yn sydyn iawn.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

2. Mesur a monitro defnydd o'r iaith fesul cymuned

Credwn fod nifer o'n hargymhellion yn y ddogfen yma yn cyfateb i gyfres o fesurau perthnasol sy'n gymwys i'w gweithredu fesul categori cymuned Gymraeg. Byddai'r cyfan yn berthnasol i Gategori 1 ac efallai eraill yn unig ar gyfer categori 2 a 3. Mater wedyn yw hi i raglennu'r mesurau hyn gan osod targed cyflawni penodol yn eu herbyn, bwrw ati i'w gweithredu a'u monitro'n drylwyr. Man cychwyn mesur effaith (a chynnydd) yw'r angen i fesur gallu a defnydd cyfredol o'r iaith ar sail yr arolwg Cymreig blynyddol a Chyfrifiad 2021 cyn rhoi mesurau ar waith. Cynigiwn fod Cynghorau Sir yn gofalu am hyn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid eraill. Byddwn yn fwy na pharod i gynnig pa fesurau penodol sy'n berthnasol i bob categori os caiff y cysyniad yma gefnogaeth y Comisiwn ac y daw yn weithredol. Yn y cyfamser, cynigiwn fod mesurau yn rhannu i un o dri diffiniad gweithredol sef:

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr
- Blaenoriaeth ganolig - gweithredu tymor byr/canol a
- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol.

3. Gweithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg

Heb os, ac fel yr amlinellwyd yn adroddiad Comisiynydd y Gymraeg, mae gweithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg wedi dioddef yn ystod cyfnod Covid.

- Mae angen rhoi sylw i hyrwyddo gweithgareddau o'r math, gan edrych ar y posibiladau o rwydweithio rhwng cymunedau a chefnogi gweithgaredd sy'n addas i wahanol ddiddordebau ac oedrannau.
- Dylid hefyd fapio beth yw'r ddarpariaeth gyfredol er mwyn sefydlu ble mae angen cynyddu'r ddarpariaeth i'r dyfodol - fel ag y gwnaeth Cyngor Gwynedd <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Yr-Iaith-Gymraeg/Gweithgareddau.aspx>
- Gallai hyn gynnwys manteisio eto ar Gynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn cynyddu niferoedd digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg.

- iv. Gellid ehangu darpariaeth gyllido i sbarduno mudiadau i gynyddu gweithgareddau yn y gymuned, trwy gronfa ddigwyddiadau benodol ar gyfer cyrff cenedlaethol sy'n gweithredu'n lleol, e.e. yr Urdd, Ffermwyr Ifainc, a sefydliadau lleol.
- v. Bu cynnydd mewn cefnogaeth leol i brynu tafarndai i'w cynnal fel canolfannau lleol. Mae angen cefnogi hyn trwy sbarduno diddordeb lleol, gyda chymorth cyfalaf lle mae angen. Mae modd i'r tafarndai/canolfannau cymunedol hyn weithredu yn rhan o rwydwaith Canolfannau Cymraeg yr ydym yn eu cefnogi'n frwd fel pŵer-bwyntiau adfywio iaith.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

4. Llysgenhadon diwylliannol

Mae'r syniad o llysgenhadon diwylliannol a nodwyd yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar "Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg" yn un sydd yn haeddu sylw. Bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o'r carfannau ieithyddol gwahanol a theilwra eu negeseuon mewn modd priodol.

- i. I fod yn effeithiol, mae angen i'r llysgenhadon fod yn niferus, ac yn gydlynwyr â chynghorau lleol a Mentrau Iaith, a mudiadau eraill fel Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a'r Urdd.
- ii. Creu modelau rôl ymysg cyfuniad o oedolion sydd wedi mynd ati i ddysgu'r iaith, rhieni di-Gymraeg sydd wedi penderfynu ar addysg Gymraeg i'w plant a brodorion sy'n siarad Cymraeg o'r cychwyn cyntaf ac sy'n adnabod eu milltir sgwâr yn dda iawn. [Ateb Rhif 9]
- iii. Gallai'r llysgenhadon weithio yn y maes Twristiaeth a newid pwyslais y diwydiant fel ei fod yn arddangos ein hiaith a'n diwylliant cynhenid mewn modd llawer mwy eang nag sydd yn digwydd ar hyn o bryd.

- Blaenoriaeth ganolig - gweithredu tymor byr/canol

5. Codi hyder ac addysgu

Mae angen codi hyder y siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith ar bob achlysur a deall ei bod yn fwy na dull cyfathrebu yn unig.

Bydd angen addysgu'r mewnfwydwr am ein hanes a'n traddodiadau yn ogystal â phwysigrwydd y Gymraeg. Mae sawl cam cychwynnol yn bosib' gan gynnwys:

- i. Llyfrynnau ar iaith, hanes a diwylliant i'w rhoi i bob prynwr tŷ.
- ii. Gwybodaeth am ddisbarthiadau Cymraeg a gweithgareddau Cymraeg i'w rhoi i bob prynwr tŷ.
- iii. Llyfrynnau twristaidd i gynnwys gwybodaeth am iaith, hanes a diwylliant.
- iv. Gwybodaeth am addysg Gymraeg, canolfannau hwyrddyfodiaid, cylchoedd chwarae Cymraeg ac ati i'w rhoi i bob darpar riant trwy glinigau, ac i rieni sy'n mewnffudo.

- Blaenoriaeth ganolig - gweithredu tymor byr/canol

Cwestiwn 3: Sut gallwn ni ddefnyddio polisiau rhanbarthol neu leol er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg?

1. Trethi ail dai

Credwn y dylai Cynghorau Sirol sy'n cwmpasu cymunedau Cymraeg fabwysiadu system(au) trethu effeithiol yn ymwneud ag ail gartrefi i sicrhau eu bod yn gwneud cyfraniad ariannol teg i'r cymunedau. Dylid ail-fuddsoddi'r cyllid ychwanegol mewn cynlluniau adeiladu mwy o dai lleol i bobl a theuluoedd ifanc.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

2. Cyllido Arfor am 5 mlynedd

Credwn fod angen ehangu cynllun Arfor i'r tymor canol, dim llai na 5 mlynedd, a neilltuo cyllid digonol er mwyn cynyddu a hyrwyddo datblygiad economaidd yng ngofal siaradwyr Cymraeg.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

3. Cymdeithasau Tai

Credwn y dylai Cymdeithasau Tai megis Adra sefydlu cronfa sirol gogledd/orllewin i brynu tai ar gyfer rhentu fel tai cymdeithasol (gw. esiampl Gwynedd ym Morfa Nefyn).

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

4. Sector Twristiaeth

Mae angen paratoi a gweithredu cynllun i gynyddu cynaliadwyedd lleol y sector diwydiant twristaidd er budd trigolion. Gallai hyn gynnwys dynodi arian o dreth ymwelwyr ar gyfer prosiectau penodol mewn cymunedau Cymraeg. Yn eu tro, wedyn, gallant fod yn atyniadau i ymwelwyr sydd â diddordeb mewn cynnal ac adfywio cymunedol ac ieithyddol gan gynnwys swyddogion polisi ac academyddion.

- Blaenoriaeth ganolig - gweithredu tymor byr/canol

5. Addysg Bellach

Mae angen cryfhau darpariaeth cyrsiau a modiwlau addysg bellach i hyrwyddo cynlluniau mentergarwch fel bod canran uwch o bobl ifanc yn gallu rhedeg busnesau yn hytrach na chael eu cyflogi mewn busnesau, e.e. gwaith Menter Môn. Yn gysylltiedig â hyn, mae angen sicrhau sgiliau Cymraeg i rai mewn addysg bellach er mwyn iddynt allu weithio'n effeithiol trwy'r Gymraeg.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

6. Hybu mentergarwch lleol a chydweithredol

Credwn fod angen craffu ar sefyllfaoedd cymunedol unigol er mwyn annog a chreu mentrau cydweithredol pellach a fydd yn cynnal busnesau ac yn hyrwyddo'r iaith (cf. Mondragon yng Ngwlad y Basgiaid) a mentergarwch lleol megis Partneriaeth Ogwen, Cwrw Llŷn, Tafarn Pengwern ayb. Dylid targedu yn benodol y sector amgylchedd sy'n fyrlymus iawn mewn sawl ardal yng Ngwynedd, Môn a Chonwy.

- Blaenoriaeth ganolig - gweithredu tymor byr/canol

7. Grantiau prosiectau adfywio cymunedol

Dylid gosod disgwyliadau a phwysoliad uwch ar allu, profiad a bwriadau o ran defnyddio'r Gymraeg wrth ddyrannu arian cyhoeddus trwy grantiau prosiectau adfywio cymunedol sirol. Trwy weithredu fel hyn, mae modd sicrhau fod mwy byth o grwpiau a threfnwyr digwyddiadau yn cyfrannu at gynaliadwyedd ieithyddol yn ogystal â chynaliadwyedd cymdeithasol ayb.

- Blaenoriaeth ganolig - gweithredu tymor byr/canol

Cwestiwn 4: Pa swyddogaeth ddylai fod gan lywodraeth leol wrth gryfhau cymunedau Cymraeg?

1. Monitro defnydd a chyflwyno rhaglen ymyrraeth ieithyddol

Credwn fod rôl Llywodraeth Leol mewn perthynas â monitro'n allweddol er mwyn adnabod patrymau dirywiad a chynnydd ieithyddol i arwain rhaglen o ymyrraeth ieithyddol:

- i. Canran y siaradwyr Cymraeg
- ii. Defnydd iaith ar aelwydydd a thueddiadau trosglwyddo iaith

- iii. Ymddygiad ieithyddol yn y gymuned, gan gynnwys cymdeithasu, mewn gwahanol leoliadau, mewn gweithgareddau chwaraeon, adloniant, diwylliant, gweithgareddau ieuenctid, gwersi nofio, gwersi gyrru, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol o bob math, defnyddio platiau dysgu dreifio 'D'
- iv. Sgiliau a defnydd iaith staff mewn gweithleoedd, e.e. Canolfannau Hamdden, clybiau a chanolfannau cymunedol
- v. Ysgolion i fonitro defnydd iaith ar fuarth ysgolion ac mewn gweithgareddau allgyrsiol
- vi. Defnydd o wasanaethau Cymraeg, a'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gweinyddiaeth gyhoeddus a sefydliadau democratiaeth a busnes, e.e. nifer sy'n cwblhau manylion ar-lein ar wefan y Cyngor trwy'r Gymraeg, priod iaith Cyngorau Tref a Chymuned, Siambrau Masnach,
- vii. Gall Llywodraeth Leol gydweithio ag asiantaethau Llywodraeth Ganol i gael darlun manwl o fywiogrwydd ieithyddol e.e. Swyddfa Ystadegau Gwladol, DVLA, Cymdeithas Cyngorau Tref a Chymuned Cymru, ayyb.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

2. Gweithredu

Llywodraeth Leol ddylai fod yn bennaf gyfrifol am weithredu ar sail dynodiad Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol arbennig, a hynny yng nghyd-destun meysydd polisi a gwasanaethau cyhoeddus fel

- Cynllunio Gwlad a Thref
- Addysg
- Swyddogaeth dyrannu nawdd a grantiau cyhoeddus.

Dylai hyn gynnwys paratoi adroddiad blynyddol i Bwyllgor Iaith a Diwylliant y Cyngor a Senedd Cymru ar fywiogrwydd ieithyddol a champau ymarferol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

Meysydd polisi

Mae dyfodol y Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar gynaliadwyedd y cymunedau hyn. Golyga hynny fod rhaid i gamau o blaid y Gymraeg fod yn 'holistaidd' – mae'n rhaid iddynt ymwneud â sawl gwedd ar fywyd y gymdeithas, a chwmpasu sawl maes polisi.

Mae'r comisiwn yn awyddus felly i dderbyn tystiolaeth am berthynas y Gymraeg â gwahanol feysydd polisi.

Mae nifer o feysydd polisi wedi eu nodi isod. Nid yw pob maes wedi ei grybwyll, a gallwch gyflwyno tystiolaeth am feysydd nad ydynt yn cael eu henwi.

Yn y meysydd canlynol, pa bolisiau y dylid eu cyflwyno er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg?

Cwestiwn 5: Adfywio

1. Cynlluniau a phrosiectau adfywio cymunedol

Mae angen gosod disgwyliadau a phwysoliad uwch ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn prosiectau adfywio cymunedol. Gydag arian cyhoeddus a werir mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig, dylid cychwyn gyda'r bwriad o ddefnyddio'r Gymraeg fel prif (neu unig) iaith gweithgaredd neu ddigwyddiad a chynnwys dysgwyr a'r di-Gymraeg mewn modd lle maent yn clywed yr iaith yn cael ei siarad fel sail gychwynnol dros fynd at i ddechrau dysgu.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

2. Yr Iaith a diwylliant yn y sector ymwelwyr

Dylid cymhell atyniadau ar gyfer ymwelwyr i hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant ac i olrhain stori dynodiad ieithyddol yr ardal fel atyniad arbennig ynddo'i hunan, e.e. mae safle Portmeirion yn llwyddo i fod yn hynod Gymreig ac agos at galonnau pobl leol ac hefyd yn atyniad byd-eang sydd ag apêl ryngwladol iddo. Cyflawnwyd hyn oll trwy ddefnyddio marchnad lafur leol lle mae'r rhelyw yn arddel y Gymraeg ac y mae iddi statws gweledol a chlywedol ar y safle. Mae Antur Stiniog yn enghraifft debyg ond yn y sector awyr agored. Dyma sector bwysig er mwyn gwneud i'r Gymraeg apelio at do ifanc anturus sy'n mwynhau'r awyr agored.

Mae angen i'r diwydiant twristaidd fanteisio i ddatblygu brand Cymraeg, a dylai llyfrynnau i dwristiaid gynnig gwybodaeth ar yr iaith.

- Blaenoriaeth ganolig - gweithredu tymor byr/canol

3. Siaradwyr newydd y Gymraeg

Mae angen cyhoeddusrwydd teilwng i oedolion (a theuluoedd) o ddysgwyr a mewnfudwyr sydd wedi anwesu'r Gymraeg. Gwelir enghreifftiau o'r bobl hyn yn gyson ar y we ac mewn cylchgronau Cymraeg. Yn ei dro, mae potensial i sbarduno eraill i ddilyn eu hesiampl a thanlinellu lle arbennig ein hiaith a'n diwylliant ym meddyliau y Cymry Cymraeg.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

Cwestiwn 6: Addysg

1. Canolfannau (Unedau) Iaith

Credwn fod angen adolygu cyfraniad a gwerth Canolfannau (Unedau) Iaith sector Cynradd ac Uwchradd ar gyfer newydd-ddyfodiaid di-Gymraeg i'r ardal/sir ac edrych o'r newydd ar yr anghenion ar sail ddaearyddol. Dylai adolygiad, hefyd, ystyried a oes angen mwy o hyblygrwydd o ran cynyddu capasiti llefydd i ddisgyblion a chapasiti staff a'r angen i gryfhau a thynhau monitro defnydd a dilyniant ieithyddol y disgybl ar ôl dychwelyd i'r ysgol er mwyn adrodd ar gynnydd/effeithiolrwydd.

2. Cryfhau polisi iaith ysgolion

O ran y drefn addysg, dylid gosod trefn ac amserlen i symud pob ysgol yn Siroedd Gwynedd ac Ynys Môn i fod yn ysgolion Cymraeg (3P) a chyfran helaeth o ysgolion yn siroedd Ceredigion a Chaerfyrddin. Byddai cyhoeddi'r bwriad yn glir yn un cam ymlaen, ac wedyn mae angen gweithredu uniongyrchol sydd yn ôl pob tebyg yn cychwyn gydag ysgolion cynradd i droi ysgolion yn ysgolion cyfrwng Cymraeg rhag blaen. Mae'n dilyn wrth reswm felly na ddylid penodi unrhyw athrawon neu gynorthwywyr pellach i unrhyw ysgol yn y pedair sir heb sgiliau Cymraeg perthnasol i'r swydd. O fabwysiadu'r drefn o Addysg Gymraeg, byddai modd cyfathrebu yn glir i bawb sy'n dod i fyw i'r ardal mai iaith Addysg yr ardal yw'r Gymraeg. Cyflwynwn sylwadau pellach yn Atodiad B.

3. Siarter Iaith Cynradd a Strategaeth Iaith Uwchradd

Dylid dynodi arian ychwanegol o fewn cyllidebau Siarter Iaith Cynradd a Strategaeth Iaith Uwchradd sirol i ysgolion sydd o fewn cymunedau Cymraeg neu sy'n derbyn disgyblion o gymunedau Cymraeg er mwyn galluogi dyfnhau a threiddio negeseuon o blaid defnyddio'r Gymraeg. Credwn fod angen ychwanegu chwistrelliad o fuddsoddiad arian cyhoeddus i gymunedau mwyaf Cymraeg oherwydd mae'n haws cynnal cyfundrefn ieithyddol gymharol gadarn nag ydyw i geisio adfywio sefyllfa lle mae dirywiad ieithyddol yn sefydlog neu ar raddfa mawr.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

4. Addysg Bellach

Dylai Grŵp Llandrillo Menai a Cholegau Addysg Bellach eraill fel Coleg Ceredigion a Coleg Sir Gâr fod yn symud oddi wrth y sefyllfa bresennol lle rhoddir dewis iaith cyrsiau i fyfyrwyr i sefyllfa sy'n darparu llwybr Cymraeg neu ddwyieithog yn unig mewn meysydd penodol e.e. Gwasanaethau Cyhoeddus, Gofal Plant a Iechyd a Gofal a bod eu staff cyfan yn y meysydd yma yn Gymraeg neu'n gyfan gwbl ddwyieithog. Mae'n bosib cyflawni hyn ond bydd angen ewylllys gwleidyddol a'r cyllid i sicrhau staff addas er mwyn gweithredu cynllun o'r fath.

Fel ag y mae hi, mae niferoedd mawr sydd o gefndiroedd Cymraeg yn dewis cefnu ar addysg bellach trwy'r Gymraeg er eu bod yn debygol o barhau i fyw a gweithio yn yr ardal/sir. Mae hyn yn cynnwys galwedigaethau allweddol megis Gofal, Gofal Plant, Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus ayyb. Credwn fod cael shifft mewn polisi yn hanfodol er mwyn creu cenhedlaeth o bobl ifanc hyderus a hyfedr ddwyieithog gan obeithio y bydd cyfradd dda ohonynt yn arddel y Gymraeg fel priod iaith a iaith magu teulu maes o law.

Mae hyn yn faes i'w ddatblygu rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a sefydliadau addysg bellach.

- Blaenoriaeth ganolig - gweithredu tymor byr/canol

5. Addysg Uwch/ Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae dybryd angen llwyddo i sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn mynychu Prifysgolion yng Nghymru ac yn dilyn cyfran/cyfan o'u cyrsiau trwy'r Gymraeg.

Myfyrwyr sy'n aros yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae llai na 50% o fyfyrwyr addysg uwch Cymru yn astudio yma o'i gymharu â thros 90% yn yr Alban a Lloegr. Hefyd mae tangynrychiolaeth o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg o ardaloedd y gogledd orllewin a'r gorllewin sy'n dewis elwa o ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan ddewis yn gynyddol i fynd i Brifysgolion yn Lloegr, Prifysgolion Russell Group sy'n rhan o gynllun Seren.

Credwn fod polisi Seren yn niweidiol o ran cyfrannu at y patrwm niweidiol o allfudo pobl ifanc ddwyieithog o Gymru sy'n debygol o ymgartrefu yn ardal eu prifysgol, tanseilio economi Cymru trwy beidio cefnogi sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a gwanhau marchnad lafur Gymraeg.

Er mwyn gwella'r sefyllfa, dylid mabwysiadu polisi os yw myfyrwyr yn dewis mynd i Brifysgol yn Lloegr a Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r myfyrwyr yn ariannol, eu bod yn dychwelyd i Gymru i weithio am bum mlynedd ar ôl cwblhau'r cwrs, neu fod y cymhorthdal ariannol yn fenthyciad na fyddai angen ei ad-dalu pe bai'r myfyrwyr yn dychwelyd i weithio am bum mlynedd. Gorau oll, pe bai'r sector cyhoeddus yn gallu eu cyflogi am gyfnod penodol er mwyn cryfhau cyfleoedd gwaith a phrofiad i fyfyrwyr dwyieithog.

Hefyd, yn fwy diweddar, mae'r Llywodraeth wedi ystyried i) targedau penodol ii) cymelliadau ariannol. Erbyn hyn mae yna gymelliadau ariannol i fyfyrwyr o Gymru sy'n awyddus i astudio cwrs Meistr yng Nghymru; ac mae targedau penodol wedi eu gosod mewn rhai meysydd o ran faint o siaradwyr Cymraeg a/neu myfyrwyr o Gymru sy'n cael eu derbyn ar y cyrsiau. Rydym yn croesawu hynny'n fawr fel cam ymlaen. Ond credwn fod angen i'r Llywodraeth fonitro a/neu osod targedau (drwy'r Cyngor Cyllido o bosib) ar gyfer nifer o gyrsgiau allweddol (rydym wedi cyfeirio at nifer eisoes). Mae'r gweithredu cadarnhaol diweddar ym maes Meddygaeth wedi llwyddo i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd o tua 15 i bron i 40 bob blwyddyn erbyn hyn. Dros amser, bydd y fath newid mewn niferoedd yn drawsnewidiol ac rydym yn grediniol bod angen ymestyn trefniant o'r fath ar draws nifer o alwedigaethau - ac yn arbennig lle mae prinder dybryd ohonynt mewn cymunedau Cymraeg.

- Blaenoriaeth ganolig - gweithredu tymor byr/canol

6. Cyrsiau Galwedigaethol Prifysgolion

Cynllun galwedigaethol - mae angen dybryd i Brifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe dargedu a neilltuo isafswm o lefydd pob blwyddyn ar gyrsiau galwedigaethol penodol megis Nyrsio, cwrs Gweithwyr Cymdeithasol, Meddygaeth, Deintyddiaeth, Fferylliaeth, Optegaeth, ar gyfer (i) siaradwyr Cymraeg a (ii) canran bellach ar gyfer myfyrwyr o Gymru. Mae'r un yn wir ar gyfer y prifysgolion hynny sy'n cynnig cyrsiau i ddarpar Gynllunwyr Gwlad a Thref yn sgil tangynrychiolaeth o siaradwyr Cymraeg yn y proffesiwn a diffyg dealltwriaeth presennol o gyddestun ieithyddol o fewn y sector yng Nghymru. Mae hynny ynddo'i hunan yn llesteirio prif-lifo'r Gymraeg a rhoi statws priodol iddi. Felly, mae angen cynllunio modiwl(au) perthnasol am brif-lifo'r Gymraeg o fewn y sector Cynllunio ar gyfer y cwrs.

Gwyddom am achosion lu lle mae pobl ifanc ddwyieithog wedi cael eu gwrthod gan Brifysgol Caerdydd ac wedi diweddu yn Lloegr. O ganlyniad, nid yw ymdrechion Llywodraeth Cymru i geisio tacllo diffygion mawr yn y meysydd hyn yn dwyn ffrwyth ac mae cymunedau Cymraeg yn wynebu sefyllfaoedd lle mae Meddygon a Deintyddion di-Gymraeg o Loegr yn gweithio ynddynt gan dderbyn bwrsari gan Lywodraeth Cymru i weithio yng Nghymru am gyfnod cymharol fyr. Nid dyma'r defnydd gorau o arian cyhoeddus. Mae hefyd yn creu argraff bod Cymru yn ddibynnol ar Loegr am wasanaethau proffesiynol craidd.

O weithredu fel yr awgrymwn, gall disgyblion a darpar fyfyrwyr y dyfodol weld bod cyfleoedd iddynt aros yn lleol neu o leiaf yng Nghymru, defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith ac ennill cyflogau da yn ogystal.

- Blaenoriaeth ganolig - gweithredu tymor byr/canol

Cwestiwn 7: Amaethyddiaeth / Defnydd Tir

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd oddeutu 50% o holl weithlu'r sector yn gallu'r Gymraeg - y sector Gymreiciaf un.

1. Coedwigaeth

Ynfydrwydd, felly, oedd peidio cydweithio'n agosach gyda ffermwyr Cymru a'r Undebau yn y prosiect plannu coed, gan adael y drws yn agored i gwmnïau mawr o Loegr brynu tir i blannu coed fel modd o "wyrddolchi" eu gweithgareddau niweidiol i'r amgylchedd. Mae'r broses wedi arwain at fygythiad pellach di-angen i ambell gymuned Gymraeg.

Mae angen gofalu fod cynlluniau'r Llywodraeth i greu coedwig genedlaethol i Gymru yn cydweddu'n llawn â strategaeth Cymraeg 2050 gan hefyd groesawu siaradwyr Cymraeg i weithio yn y sector amgylchedd er lles y cymunedau yn yr ardal.

2. Hwyluso cartrefi i blant ffermydd

Mae hefyd angen hwyluso hawl plant ffermydd i adeiladu cartrefi ar dir y fferm deuluol o gofio fod cynifer o gymunedau Cymraeg yn wledig a'r sector amaethyddiaeth yn amlwg iawn ynddynt.

3. Datblygiadau yn y Parciau Cenedlaethol

Mae angen i Barciau Cenedlaethol ganiatáu datblygiadau graddfa fach sy'n gallu rhoi bywoliaeth lewyrchus i frodorion yn y diwydiant amaeth.

4. Datblygu ffermio cydweithredol

Mae ffermio'n ddiwydiant caled i'r unigolyn. Mae hi'n anodd i'r genhedlaeth iau fod â chyfalaf digonol i brynu fferm, ac mae ffermydd ar rent yn gallu bod yn anodd eu cael. Byddai'n fuddiol astudio sut y gellir cychwyn system fwy cydweithredol o ffermio, er mwyn lleihau baich ar ffermwyr unigol ac er mwyn ei gwneud yn haws i'r genhedlaeth iau gychwyn ffermio. Mae mentrau cydweithredol cynhyrchu bwyd yn bod, a gellid estyn hyn at y ffermio ei hun.

5. Hyrwyddo Gweithgareddau

Mae'n bwysig bellach ein bod yn sicrhau cynladwyedd aelodaeth a bwrlwm digwyddiadau ar lawr gwlad mudiadau naturiol Gymreig megis Clybiau Ffermwyr Ifanc. Dylai dyraniad grantiau cyhoeddus ddynodi cynnydd blynyddol ariannol ychwanegol i glybiau mewn cymunedau Cymraeg er mwyn cefnogi ymdrechion y MFFI i gynnal llewyrch cymunedol yr iaith, fel nad oes sefyllfa yn codi lle maent yn dirwyn i ben am resymau diffyg arian.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

Cwestiwn 8: Cynllunio Gwlad a Thref

1. Cynlluniau Datblygu Unedol Cynghorau Sirol Cymru

Credwn yn gryf fod Cynlluniau Datblygu Unedol Cynghorau Sirol Cymru yn sylfaenol wallus am nad ydynt wedi seilio y twf am dai i'r dyfodol ar sail anghenion lleol. Ymhellach, dylid ystyried y stoc tai presennol ynghyd â chyfraddau genedigaethau a marwolaethau o fewn y sir er mwyn cynllunio twf ar sail angen yn y cymunedau hynny yn unig, nid ar sail amcanestyniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Canlyniad y cynlluniau presennol yw bod Siroedd Cymru yn adeiladu gormod o dai, sydd am nifer o resymau ers Covid yn denu mwy a mwy o bobl yma o Loegr. Dyna sydd wedi digwydd yn Sir Gaerfyrddin, e.e., ac sy'n esbonio'r dirywiad pellach yn y canran o siaradwyr Cymraeg yn y sir. Ond mae'r broblem o fewnlifiad yn wir ledled Cymru tra bod ei effaith yn fwy eglur ac amlwg mewn cymunedau Cymraeg.

Yr angen am ailstrwythuro'r gyfundrefn gynllunio:

Mae angen ailstrwythuro'r gyfundrefn gynllunio yn llwyr. "The system is broken" oedd geiriau Nick Raynsford, cyn Weinidog Tai y llywodraeth Lafur yn adroddiad 2018. Gweithiodd Ian Mulheirn yn y Trysorlys ac yna i Oxford Economics cyn dod yn Gyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Economegydd "Rescuing the Centre" a grewyd gan Tony Blair. Mae wedi gwneud mwy nag un dadansoddiad o'r gyfundrefn gynllunio megis "Housing Crisis, What Crisis?" yn 2016 a "Tackling the Housing Crisis, is Supply the Answer?" yn 2019. Ei argyhoeddiad yw bod ystadegau swyddogol yn dangos bod mwy o dai nag o aneddiadau yn Lloegr, yr Alban a Chymru. Mae'n feirniadol o'r SYG/ONS am amcanestyniadau llawer rhy optimistaidd am y twf yn y boblogaeth a'r rhagolygon economaidd. Canlyniad hyn yw goradeiladu ac mae'r ail gartrefi a'r AirBnBs yn enghreifftiau o aneddiadau sydd ar gael ond heb fod at ddefnydd lleol.

Yr hyn sydd gennym yw nifer o broblemau penodol megis digartrefedd a phrinder tai addas i ateb anghenion pobl ifanc a'r angen i ddiffinio fforddiadwyedd yn ôl cyfradd cyflogau lleol. Am yn llawer rhy hir, moesymgrymwyd gerbron y "datblygwyr" mawr fel Carillion a Persimmon..

Mae angen canolbwyntio ar anghenion lleol, ac yng nghyd-destun y Cymunedau Cymraeg mae'n rhaid cael newid pwyslais sylweddol os nad ydym i adeiladu rhagor o dai ar gyfer pobl ddi-Gymraeg tra bod ein pobl ifanc yn gadael i ganfod gwaith.

Mwy o farwolaethau na genedigaethau:

Mae ymchwil Dyfodol i'r Iaith yn dangos yn y naw sir dan sylw, sef siroedd Arfor a Phowys, Dinbych, Conwy, Penfro a Castell Nedd Port Talbot bod mwy o bobl wedi marw na chael eu geni dros nifer o flynyddoedd. Yn achos Sir Gaerfyrddin, mae 'r duedd wedi bodoli ers 2000. Dylai hyn olygu poblogaeth sydd yn gostwng. Ond nid felly y bu mewn siroedd fel Caerfyrddin, Dinbych, CNPT, Penfro a Phowys. Y rheswm am hyn yw mewnfudo, fel sydd yn cael ei gydnabod yn rhaglen Drafft CDLI Sir Gaerfyrddin:

"ers 2001, mae poblogaeth y sir wedi cynyddu o ganlyniad i 12,800 o bobl ychwanegol, sef cynnydd o 7.4% mewn 16 mlynedd" a

"Y prif ffactor sydd wedi dylanwadu ar newid i boblogaeth Sir Gaerfyrddin ers 2000/1 yw mewnfudo, lle mae mwy o bobl wedi symud i'r sir nag sydd wedi gadael"

Lluniwyd y ddogfen hon yn 2017 cyn y mewnfudo diweddaraf adeg y pandemig. Mae'n debyg nad yw'r ffigurau yn union yr un fath yn y siroedd eraill, ond mae'r mewnfudo yn ffactor na fedrir ei osgoi gan ei fod yn gwanhau'r Gymraeg ymhellach.

Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r broblem. Ar ran y Llywodraeth, tynnodd Mark Newey sylw cyngor Sir Gaerfyrddin at effaith posibl mewnfudo os yw'r sir yn cadw at y targed presennol o adeiladu 8,835 o dai yn y CDLI arfaethedig.

Fel mae'r ymchwil yn ei ddangos, mae nifer sylweddol o dai gwag yn y siroedd hyn ac nid oes yr un o'r awdurdodau yn gwybod faint o dai sydd ar werth. Mae'r rhain ar gael fel aneddiadau ar gyfer prynwyr - cyn mynd ati i adeiladu miloedd o dai yn y Cynlluniau Datblygu Lleol.

Mae angen pellach i'r CDLlau, a hefyd bolisi Llywodraeth Cymru yn y ddogfen "Dyfodol Cymru," ochel rhag diffinio'r Gymraeg fel iaith yr ardaloedd gwledig yn unig. Dangosodd Cyfrifiad 2011 mai ardaloedd ôl-ddiwydiannol Sir Gaerfyrddin oedd â'r canrannau uchaf o Gymry Cymraeg, sef cymoedd Gwendraeth ac Aman. Dangosodd dadansoddiad Dr Simon Brooks ar effaith ail gartrefi mai ardaloedd tebyg yng Ngwynedd, sef ardaloedd y chwareli, sydd â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Mae angen gofal arbennig rhag goradeiladu yn yr ardaloedd Cymraeg.

Dylid newid y drefn:

- i. Newid sail y gyfundrefn i stoc tai ac nid defnydd tir.
- ii. Ystadegau Geni/Marw a Mudo dros y ddegawd flaenorol i fod yn ystyriaethau statudol.
- iii. Cyfanswm y tai gwag a'r tai ar werth i fod yn ystyriaethau statudol.
- iv. Darpariaeth i ateb gofynion y cymunedau Cymraeg yn unig. Mae'n debyg y bydd hyn yn golygu canolbwyntio ar dai cymdeithasol a fforddiadwy, a fforddiadwyedd i'w ddiffinio yn ôl cyfartaledd cyflogau lleol.
- v. Sicrhau bod y tai cymdeithasol yn mynd i bobl y sir.
- vi. Caniatáu y cyfanswm lleiaf angenrheidiol o dai 3-4 ystafell wely i sicrhau elw i'r adeiladwr.
- vii. Y gwaith i'w gyfyngu i gwmnïau lleol.
- viii. Asesiad effaith ar y Gymraeg i'w ymgymryd gan asiantaeth[au] annibynnol ar bob un o'r CDLlau perthnasol.
- ix. Gorffen yr anghyfartaledd defnydd TAW rhwng adeiladu tai newydd ac adnewyddu tai.

Cyflwynwn wybodaeth fanylach am gyfraddau genedigaethau a marwolaethau a stoc tai yn Atodiad C.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

2. Datblygu tai ar raddfa fach mewn pentrefi, yn ôl canran y tai presennol

Er mwyn cadw natur, graddfa a maint pentrefi mewn cymunedau Cymraeg rhag datblygu y tu hwnt i ofyn lleol, credwn fod angen mabwysiadu polisi i'w weithredu ar y cyd efo'r Cyngor Tref a Chymuned lleol i gadw twf tai i raddfa gymesur ac i bobl leol. Gwyddom am effeithiau ieithyddol llesteiriol nifer bychain di-Gymraeg mewn pentrefi Cymreig gwledig – gweler gwaith ymchwil gan academyddion megis Dr Delyth Morris a Glyn Bryn Williams.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

3. Ail-ddynodi 'lleol' i olygu 'siaradwyr Cymraeg lleol'

Credwn hefyd fod cyd-destun cymunedau Cymraeg a'r sefyllfa wirioneddol fregus a wynebant yn gyfiawnhad digonol i ail-ddynodi tai i bobl leol i dai ar gyfer pobl leol sydd yn siarad Cymraeg. Credwn fod angen herio'r *rhagdybiaeth* bresennol sydd yn honni nad oes modd cyflawni hyn am resymau cyfreithiol yn ymwneud â hawliau dynol, cydraddoldeb, gwahaniaethol ayyb. Nid ydym yn derbyn hynny ac yn credu bod angen herio hyn yn gyfreithiol. Gwyddom am achosion mewn ardaloedd ym Mhen Llŷn lle dynodwyd nifer bychain o dai fforddiadwy ar gyfer pobl 'lleol' oedd wedi byw yn yr ardal ers 5 mlynedd. Y gwir amdani oedd nad oedd y dynodiad 'lleol' hyd yn oed yn yr ardal yma'n gyfystyr â bod yn siaradwyr Cymraeg ymhob achos gan fod cyfran o drigolion di-Gymraeg yn yr ardal wedi ymsefydlu yno ers 5 mlynedd a mwy. Bydd hyn yn wir ar draws Cymru ac ymhlith trwch ardaloedd lle bydd llawer llai o'r bobl leol yn gallu'r Gymraeg. Felly mae cyfiawnhad rhesymol dros ddynodi ffafriaeth o blaid siaradwyr Cymraeg fel yr unig ddull o sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu byw yn y cymunedau Cymraeg olaf hyn. Heb newid y dynodiad, 'does dim gwarant i siaradwyr Cymraeg o gwbl.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

4. Lletygarwch a charafannau

Ymddengys bod rhai meysydd carfannau gwyliau yn gallu bod ar agor am 11 mis y flwyddyn a nifer o'r perchnogion i bob pwrpas yn byw yma ond heb fod yn talu unrhyw drethi. Yn aml iawn, mae ganddynt gartrefi yn ogystal. A yw hyn yn newid gyda mesurau diweddaraf Llywodraeth Cymru? Os nad yw, yna mae diffyg yn y drefn sy'n golygu bod modd i ymwelwyr di-Gymraeg aros yng Nghymru heb gyfrannu unrhyw drethi at yr economi na llesiant ieithyddol y Gymraeg. Mae angen cau y diffyg sylfaenol hwn gan fod yr unigolion hyn yn elwa ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

5. Treth tai haf i ddarparu tai lleol

Rydym yn croesawu'n fawr y ffaith bod sawl Cyngor Sir eisoes wedi dynodi arian sy'n deillio o godi treth tai haf hyd at 300% yn cael ei neilltuo yn benodol ar gyfer datblygiadau tai lleol a fforddiadwy. Credwn y dylai pob Cyngor Sir sy'n cynnwys cymunedau Cymraeg o fewn eu ffiniau fabwysiadu yr un polisi er mwyn troi argyfwng tai haf yn ddatrysiad tai lleol dros dreigl amser.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

6. Capió cyfanswm tai haf ac ail dai ymhob cymuned/pentref

Credwn hefyd bod gwir angen capio cyfanswm tai haf ac ail dai ymhob cymuned/pentref er mwyn sicrhau trothwy heb fod uwchlaw dyweder 25% o holl stoc tai y gymuned honno. Noda dogfen "Gwaith ymchwil ar ail gartrefi: crynodeb o'r adolygiad o'r dystiolaeth", 2021, "Mae Gwynedd (20%), Sir Benfro (16%), Ynys Môn (9%), Ceredigion (7%), Conwy (5%), Powys (5%) a Sir Gaerfyrddin (4%) yn cyfrif am lai na thraean o awdurdodau lleol Cymru, ond eto mae deuparth yr holl ail gartrefi yng Nghymru ynddynt (66%)."

Gwyddom am rai cymunedau megis Abersoch ac Aberdaron lle mae'r canran yn agos iawn i 50% ac wedi amharu'n negyddol iawn ar fwrlwm a bywyd y cymunedau hynny. Credwn bod rôl i'r Cynghorau Tref a Chymuned gyda'r Cynghorau Sir o ran monitro niferoedd yn eu milltir sgwâr.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

7. Caniatáu prynu gorfodol eiddo gwag

Credwn y byddai dilyn polisi o'r fath yn rhyddhau eiddo segur i'r boblogaeth leol gan gyfrannu at leihau diffyg tai mewn cymunedau.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

8. Defnyddio adeiladau sy'n dod yn wag

Pan fo unrhyw adeilad cymunedol megis siop, neuadd, ysgol, tafarn, capel, eglwys neu swyddfa ayyb yn dod yn wag ac ar werth ar y farchnad agored, dylai'r gymuned leol gael y cyfle cyntaf i brynu'r asedau hyn er budd y gymuned ac er mwyn cynnal y Gymraeg. Dylai hyn gynnwys cyfnod rhesymol i sefydlu cronfa gyhoeddus er mwyn casglu arian i brynu'r eiddo.

9. Dynodi swyddogaeth Cynllunio i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg

Credwn fod angen dybryd i ymestyn swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg i gwmpasu maes cynllunio - o ran ceisiadau cynllunio mawr, dilysu a gwirio Asesiadau Effaith Ieithyddol ac apeliadau Cynllunio lle mae'r iaith yn ffactor yn y penderfyniad. Fel ag y mae, nid oes unrhyw awdurdod cenedlaethol annibynnol ar gyfer ystyried y Gymraeg yn y broses cynllunio er bod rhai cyffelyb ar gyfer yr amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru), Archaeoleg (Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol) a chadwraeth (CADW). Mae'r cyrff hyn yn ymgynghorai cyfreithiol hefyd ymhob cais cynllunio ac nid oes modd derbyn caniatâd cynllunio i geisiadau heb eu cefnogaeth/sêl bendith. Mae hyn yn ddiffyg sylfaenol sydd angen ei ddatrys ar frys gan nad yw'r drefn bresennol yn gosod statws dilys na phwrpasol i'r iaith. O ganlyniad, gwelwn yn rhy aml o lawer asesiadau effaith ieithyddol sylfaenol wallus sy'n cyflawni dim ond bodloni gofynion ymarfer papur a thicio bocsys. Pe newidid y drefn, byddai rheidrydd i ddatblygwyr ceisiadau cynllunio mawr fod yn cyfeirio asesiadau effaith iaith at y Comisiynydd Iaith i'w gwirio a chael eu bodloni bod yr asesiad yn wrthrychol - yn seiliedig ar ffeithiau a'r rhagdybiaethau yn gyfres o rai mwyaf tebygol.

Credwn hefyd fod angen gosod amod pellach na llunio asesiad effaith iaith (neu ddatganiad iaith) cyn derbyn caniatâd cynllunio, sef cynnal asesiad effaith ieithyddol ymhén dyweder 12 mis neu fwy ar ôl i'r datblygiad preswyl gael ei gwblhau. Pwrpas hyn fyddai sefydlu beth yn union yw'r sefyllfa ieithyddol gyda cheisiadau unigol tros gyfnod o amser. Heb gasglu gwybodaeth fel hyn, ni cheir darlun o'r sefyllfa go iawn na sail dros addasu neu ychwanegu polisïau i gyflawni'r nod yn llawnach i'r dyfodol. Fel blaenoriaeth, dylid treialu'r broses hon gyda phob cais cynllunio yn y cymunedau Cymraeg 40%+.

Cwestiwn 9: Datblygu Cymunedol

1. Tri grŵp targed allweddol

Miliwn o siaradwyr?:

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi pwysigrwydd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â chyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r pwynt am ddefnydd iaith yn sylfaenol bwysig ac yn tanlinellu pwysigrwydd y cymunedau Cymraeg. Er gwaethaf dulliau eraill o gysylltu a chyfathrebu, y cymunedau Cymraeg yw'r ffynhonnell fwyaf dibynadwy i ddiogelu idiomau naturiol y Gymraeg. Heb ymwneud cyson rhwng defnyddwyr y Gymraeg, mae'n ymddangos mai dirywio a chrebachu wnaiff y Gymraeg.

Mae dogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru "Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg" yn taro'r hoelen ar ei phen:

"Heb ddiogelu cymunedau daearyddol sy'n ieithyddol hyfyw yn y gorllewin a'r gogledd orllewin, bydd llai o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol pob dydd. Mae hyn yn ei dro yn bygwth siglo sylfeini'r gwaith o greu siaradwyr newydd ledled Cymru".

Y gamp fydd sicrhau ymwneud adeiladol rhwng y grwpiau iaith sydd yn bodoli bellach mewn cymunedau a elwir yn gymunedau Cymraeg, tra'n newid meddylfryd nifer i fod yn fwy cadarnhaol i'r Gymraeg.

Mae angen polisiau sy'n targedu tri grŵp, siaradwyr Cymraeg, brodorion di-Gymraeg a mewnfudwyr.

i. Siaradwyr Cymraeg

a. Peuoedd y cartref a'r gymuned

Y maes pwysicaf yw bod y rhain yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau bob dydd, yng ngwahanol beuoedd y cartref a'r gymuned a'r cyfryngau cymdeithasol, ac mae angen amlwg am hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y peuoedd yma.

Mewn cymunedau Cymraeg, mae arfer amlwg ymhlith nifer o blant yn eu harddegau o droi i'r Saesneg gyda'i gilydd fel iaith gymdeithasol er eu bod yn aml iawn o aelwydydd Cymraeg a'r Gymraeg yn briod iaith iddynt. Gall arwain at lesteirio hyder yn y Gymraeg, rhoi mwy o fri i'r Saesneg ac mewn rhai amgylchiadau arwain at gefnu'n llwyr ar y Gymraeg. Mae angen llunio a gweithredu cyfres o ymyriadau ymarferol i geisio newid y duedd yma sy'n amrywio o ardal i ardal ac o fewn a rhwng siroedd.

Hyder

Tra bod lleiafrif o siaradwyr Cymraeg yn poeni am ddyfodol yr iaith ac yn gweithredu o'i phlaid, mae nifer yn parhau i fod braidd yn ddi-fater. Mae angen meithrin hyder a balchder ymysg trwch y Cymry Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur posibl. Nid un diwrnod "Shw mae?" "Sut Mae?" sydd ei angen, ond yn hytrach annog pob un sydd yn siarad Cymraeg i ddefnyddio'r cyfarchiad hwnnw wrth gyfarfod dieithriaid. Byddai hyn yn sefydlu'r agwedd mai dyma'r iaith naturiol a'n dymuniad i'w defnyddio. Y gamp yw newid y meddylfryd mai'r Saesneg yw'r "norm".

Mae gwaith gwych Cymdeithas Pêl Droed Cymru yn cynnig arweiniad i'r hyn sydd yn bosibl trwy ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac i ddylanwadu ar eraill yr un pryd.

Mater arall yw defnyddio'r iaith wrth ysgrifennu at sefydliadau swyddogol, sy'n galw am lefel uwch o hyder ieithyddol. Gall y cwricwlwm newydd godi'r hyder hwn, o bosib'.

b. Trosglwyddo'r iaith

Credwn fod angen cydnabod anawsterau yn y patrymau trosglwyddo iaith a cheisio mynd i'r afael â hyn ymhlith teuluoedd cymysgiaith pan mae'r plant yn dechrau'r ysgol. Tra bod teuluoedd naturiol ddwyieithog i'w croesawu, byddai'n fuddiol dros ben gynnig cwrs dysgu Cymraeg wedi ei deilwra i amgylchiadau teuluol o'r math yma a fyddai'n manteisio ar allu iaith yr un rhiant a'r plant i gynorthwyo'r rhiant di-Gymraeg i feistrolu'r iaith. Y gobaith wedyn yw creu shiftt ieithyddol o deuluoedd dwyieithog i deuluoedd Cymraeg ar yr aelwyd.

Patrymau trosglwyddo iaith

Un o nodweddion amlycaf cymunedau Cymraeg yw'r ffaith fod cyfraddau trosglwyddo iaith mewn aelwydydd lle mae'r ddau riant yn gallu'r Gymraeg yn uchel iawn. Er enghraifft, yng Ngwynedd yn 2011 roedd dros 90% o'r ddau riant oedd yn gallu siarad Cymraeg yn ei throsglwyddo i'w plant (Cyfrifiad 2011). Ond eto i gyd, gwyddom hefyd am dueddiad hir mewn rhai ardaloedd trefol megis Pwllheli, Llanrwst a Dolgellau lle mae dau riant sy'n gallu'r Gymraeg yn dewis magu eu plant trwy'r Saesneg. Yn ei dro,

mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar yr ysgol gynradd i'w cael i bwynt o fod yn gyffyrddus yn ei siarad.

Yn gynyddol, bellach, mae teuluoedd cymysgiaith yn bodoli gyda'r plant yn hyddysg yn y ddwy iaith ond nid o reidrwydd y ddau riant.

ii. Brodorion di-Gymraeg

Mae grŵp allweddol arall, sef y brodorion di-Gymraeg. Nid un criw unffurf yw'r rhain fwy na'r siaradwyr Cymraeg.

Anhawster wrth ddenu cymathu mewnfudwyr

Gall presenoldeb y Cymry di-Gymraeg ei gwneud yn anos cymathu'r mewnfudwyr – "they're Welsh too, but they don't speak Welsh, so why should we? Anyway, language is only a means of communication isn't it?" yw'r cwestiynau a ofynnir gan ganran o'r mewnfudwyr.

Rhaid parhau i danlinellu'r pwynt fod elfen ganolog o Gymreictod ar goll heb ein hiaith a bod y Gymraeg yn fwy na dull cyfathrebu. Mae'n rhan greiddiol o'n hanes a'n hunaniaeth. Daw hyn yn amlwg wrth edrych ar enwau llefydd a nodweddion daearyddol sydd yn arddel enwau Cymraeg – *bryn, rhyd, pen a cwm*, er enghraifft.

Siaradwyr newydd yn llysgenhadon

Ymhlith y bobl orau i ddylanwadu ar eu cyd-Gymry yw arwyr tawel Cymru dros y degawdau diweddar, sef y di-Gymraeg sydd wedi mynd ati i ddysgu'r iaith fel oedolion a/neu sydd wedi mynnu addysg Gymraeg i'w plant. Dyma llysgenhadon teilwng sydd yn haeddu llawer mwy o ganmoliaeth a chyhoeddusrwydd.

Y di-Gymraeg am anwesu'r iaith:

Mae'r ymateb i gân Dafydd Iwan "Yma o Hyd" yn dangos bod cefnogaeth sylweddol i'r iaith ymysg y di-Gymraeg. Gall esiampl ysgol Pen y Dre ym Merthyr fod yn ysgogiad i nifer o ysgolion cyfrwng Saesneg yn y gorllewin. Mae angen symud pob ysgol yn y cymunedau Cymraeg ar hyd y continwmm iaith ac mae rhesymau addysgol yn ogystal â chymunedol dros wneud hynny.

iii. Mewnfudwyr

Nid yw'r rhain, fwy na'r ddwy garfan arall, yn unffurf eu hagwedd at y Gymraeg. Ond mae'r ychydig dystiolaeth sydd gennym yn awgrymu mai lleiafrif sydd yn mynd ati o ddfri' i ddod yn rhugl (20% yng Ngwynedd a 15% yng Ngheredigion o'r 660,00 a symudodd i Gymru yn ôl Cyfrifiad 2011).

Mae angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhai sydd wedi ei dysgu fel anogaeth i eraill. Ond mae man cychwyn y gwaith cymathu yn dechrau o fan gwahanol i'n cyd wladwyr di-Gymraeg. Mae'n bosibl fod ganddynt ryw syniad am iaith wahanol yn dilyn ymweliadau gwyliau â Chymru. Yn hyn o beth, mae angen diwygio'r diwydiant twristiaeth yn sylweddol.

Ond prin yw sylw'r cyfryngau Saesneg i'r Gymraeg. Mae cwricwlwm Hanes ysgolion Lloegr yn sôn am Caerwent a "the English campaigns to conquer Scotland and Wales". Mae newid cyson rhwng "English" a "British" yn y canllawiau. Dyma'r feddylfryd sydd mor heriol wrth i fewnfudwyr o Loegr ymsefydlu yn y broydd Cymraeg.

Er bod rhai o'r awdurdodau sydd yn cynnwys cymunedau Cymraeg wedi dosbarthu pecynnau "Croeso" i fewnfudwyr, mae'n aneglur faint o effaith gafodd hyn. Yn sicr, mae angen dwysáu ein hymdrechion cymathu gan gynnig a phwyso ar newydd ddyfodiaid i ddysgu'r Gymraeg gan nodi'r manteision cymdeithasol a diwylliannol.

Tra bod Canolfannau Iaith ar gael hwnt ac yma i gynorthwyo plant i ddysgu'r iaith, nid oes unrhyw drefn gyffelyb ar gyfer oedolion megis y rhai sydd yn ymddeol i gymunedau Cymraeg.

Gall y Mentrau Iaith a'r Canolfannau Iaith fod yn weithredol yn dilyn y cyflwyniad i'r iaith yn y Pecynnau Croeso. Byddai'n wych ehangu ar gynllun "Partneriaid" y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol gyda Chymry iaith gyntaf a dysgwyr rhugl yn cynorthwyo'r mewnfudwyr i feistrolia'r Gymraeg.

Mae cymathu mewnfudwyr yn dasg sylweddol ond yn un angenrheidiol os ydym am osgoi tensiynau sydd eisoes wedi dod i'r amlwg yn ardal Llandeilo a Phorthmadog rhag troi'n chwerwder.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

2. Cynlluniau a gwersi dysgu Cymraeg i'r di-Gymraeg yn AAIA ar gael am ddim gyda chynlluniau dilynol i arfer iaith ar ôl iddynt ddarfod.

Un o'r heriau mawr sy'n atal cymhathu'r di-Gymraeg i gymunedau Cymraeg yw'r anallu i siarad Cymraeg. Weithiau, hefyd, nid yw siaradwyr Cymraeg yn barod i gynorthwyo, trwy droi i'r Saesneg yn hytrach na pharhau gyda sgysiau yn y Gymraeg. Credwn felly fod angen adnabod pob cymuned Gymraeg yn ôl Categori 1-2 a dechrau cynllunio galw am wersi Cymraeg hyblyg, heb gyfyngiadau fel cael isafswm o dyweder 8 person a heb bwyslais gormodol ar ddilyn cymhwyster iaith.

Mae angen cyfuno hyn gyda chanllawiau a chynghor i siaradwyr Cymraeg ynglŷn â sut orau i ddelio'n adeiladol gyda dysgwyr sydd am ymarfer eu Cymraeg. Crëwyd fideos effeithiol iawn 'Cefnogi Dysgwyr' gan Dysgu Cymraeg ac mae angen eu defnyddio yn eang yn y cymunedau hyn a thu hwnt: ysgolion a chlybiau chwaraeon a diddordeb, er enghraifft. Gallant weithredu fel sail i gymathu a phontio'r gagendor rhwng siaradwyr Cymraeg a mewnfudwyr.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

3. Cymreigio'r Stryd Fawr

Cymreigio'r stryd fawr oedd y prif angen a ganfuwyd mewn arolwg a gynhaliodd Dyfodol i'r Iaith yn Eisteddfod Ceredigion, gydag ymatebwyr o ardaloedd Cymraeg yn galw hefyd am ragor o swyddi a chryfhau'r economi. Efallai y dylid pwylllo, hefyd, gan mai pentrefi bychain gwledig prin eu poblogaeth yw nifer o gymunedau Cymraeg. Ond gan fod nifer sylweddol yn siopa'n rheolaidd mewn trefi mwy sydd â chanran is o siaradwyr Cymraeg megis Bangor neu Ddolgellau, yma mae'r angen yn parhau, a'r galw o gyfeiriad achos busnes yn un dilys iawn. Er enghraifft, mae nifer beunyddiol yn teithio o Ben Llŷn i weithio ym Mangor, Caernarfon a Llangefni. Byddai'n gam sylweddol ymlaen i lunio ymgyrch i Gymreigio'r Stryd Fawr. Gallai siopau a chwmnïau mawr eraill:

- Sicrhau bod gweithwyr sydd yn medru'r Gymraeg a gweithwyr di-Gymraeg yn gwisgo bathodynau priodol i ddynodi pwy sydd yn gallu a phwy sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg.
- Gwneud cyhoeddiadau uchelseinydd yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg
- Yn yr archfarchnadoedd, gofalu bod tiliâu lle gall cwsmeriaid drafod yn y Gymraeg tra'n talu
- Os oes cerddoriaeth gefndirol, chwarae cerddoriaeth Gymraeg a/neu Radio Cymru/radio lleol dwyieithog.
- Hyrwyddo'r defnydd llafar o Gymraeg mewn siopau, tafarnau, caffis ac ati
- Sefydliadau'r stryd fawr i nodi ar y ffenest os oes modd siarad Cymraeg yno
- Cynnig gwasanaeth lleol i gynghori ar y defnydd o Gymraeg
- Gwobrwyo busnesau sy'n cynyddu'r defnydd o'r iaith – digwyddiad blynyddol â statws
- Pob arwydd siop/caffi newydd i fod â'r Gymraeg yn unig / yn gyntaf

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

4. Staff di-Gymraeg i wisgo bathodynau 'Dwi'n dysgu Cymraeg'.

Dadleuwyd y byddai'n effeithiol defnyddio bathodynau 'Dw i ddim yn siarad Cymraeg'. Dyna oedd barn mwyafrif o weithlu iechyd Ysbyty Gwynedd pan ddechreuwyd gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol yn ôl yn yr 1990au. Er y byddai hyn yn ddull symbolaidd o bwysleisio mai'r Gymraeg yw priod iaith yr ardal a thrwch poblogaeth y gymuned, mae angen gofalu na cholli cydymdeimlad rhai di-Gymraeg.

Byddai'n fuddiol cynnal arbrawf i wybod pa fathodynau fyddai'n seicolegol orau i greu sefyllfa lle mae defnyddio'r Gymraeg yn normal.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

5. Ymgyrchoedd hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn weinyddol

Credwn fod angen bod yn greadigol a mabwysiadu a hyrwyddo cynlluniau 'Defnyddiwch eich Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg'. Er enghraifft, 'Defnyddiwch eich D' ac 'Ewch am brawf gyrru Cymraeg' i ddysgu dreifio, 'Defnyddiwch eich Cymraeg' wrth gyrchu gwasanaethau sector cyhoeddus a phreifat ac wrth gofrestru am e-byst. Yn yr un modd, targedu ffermwyr i ffonio'r rhifau Cymraeg ar gyfer pasbort gwartheg a chael iawndal am anifeiliaid sydd wedi marw. Gellir cynnwys Newyddlenni, rhaglenni gweithgareddau ayyb, hyrwyddo Y Cynnig Rhagweithiol yn y sector iechyd, cofrestru fel siaradwr Cymraeg gyda chyrrff fel Cyngor Sir, Swyddfa Basbort ayyb. Mae myrdd o gyfleon yma a gellid defnyddio pobl ifanc mewn Colegau Addysg Bellach i gyfrannu a llunio'r ymgyrchoedd gyda chyllid canolog.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

6. Hyder i ddefnyddio'r Gymraeg

Un o'r heriau mawr ledled Cymru yw diffyg hyder nifer o Gymry Cymraeg yn eu hiaith a'u diwylliant unigryw. Cyflyrwyd ni i feddwl ei bod yn anfoesgar siarad Cymraeg yng ngŵydd rhai nad ydynt yn medru'r iaith. Mae angen meithrin hyder y Gymry Cymraeg i siarad y Gymraeg ar bob cyfle tra'n cynorthwyo'r rhai di-Gymraeg i fentro arni. Credwn y gellir gwireddu hynny trwy gynnal cyfres o weithgareddau ar lawr gwlad gan sefydliadau megis y Mentrau Iaith, Cwmnïau a Mentrau Cymunedol, Cymraeg i Bawb, yr Urdd ayyb ond mae hon yn neges y gall pob math o gyrff ei hyrwyddo, nid dim ond rhai sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

Cwestiwn 10: Datblygu Economaidd

Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn taro'r tant cywir yn ei Ragair i'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg trwy nodi mor bwysig yw creu cynlluniau economaidd, cymunedol ac ieithyddol "yn ofalus er mwyn galluogi cymunedau Cymraeg i fod yn hyfyw yn economaidd ac ieithyddol".

Enghraifft o hyn yw'r Bwrdd Crwn Economi a'r Iaith a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019. Mae'r Bwrdd yn cynnwys ymarferwyr datblygu economaidd a chynllunwyr iaith. Y gobaith yw y bydd y Bwrdd yn medru gweithio'n effeithiol a chael y cyllid angenrheidiol i fod yn effeithiol.

Cafodd siroedd Arfor fwy o arian yn ddiweddar i gefnogi diwydiannau a mentrau sydd yn hybu'r Gymraeg. Mae croeso i hyn eto, er ein bod yn poeni nad yw'r swm a roddwyd yn ddigonol i gael effaith sylweddol ar y Gymraeg. Pryder arall yw fod oes y prosiect yn rhy fyr a bod angen ymrwymiad tymor canol digonol iddo ddwyn ffrwyth.

Gobeithio bod modd ehangu gwaith y mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol y cyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghorol ar Cynllun Tai Cymunedol Cymru. Mae'n siŵr y bydd angen cymorth cyllidol cychwynnol ar y fath fentrau a chwmnïau.

1. Cyrff Sector Cyhoeddus

Credwn fod angen taelo Byd Gwaith - ac yn benodol y dylid gosod yr egwyddor fod yr holl weithlu sy'n gweithio i'r gwasanaethau cyhoeddus yn siroedd Gwynedd, Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin yn meddu ar sgiliau dwyieithog. Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi gwneud hyn ers tro, ac felly hefyd Heddlu Gogledd Cymru, ac mae Heddlu Dyfed Powys yn symud i'r cyfeiriad hwn, ond mae angen i'r pedair sir, y byrddau iechyd perthnasol, yr heddlu, y Colegau a'r Prifysgolion (o ran trefniant a gweinyddiaeth), sefydliadau cenedlaethol perthnasol, e.e. y Llyfrgell Genedlaethol, oll weithredu ar yr egwyddor eu bod yn gweithredu yn y Gymraeg a bod disgwyl i bob aelod o staff fedru gweithredu yn llawn mewn awyrgylch gwaith dwyieithog. Fel man cychwyn, dylai swyddfeydd ardal, Canolfannau Hamdden, Swyddfeydd Cofrestru, Llyfrgelloedd a Theatrau sector cyhoeddus o fewn ac ar gyrion cymunedau Cymraeg sicrhau gweithlu cyfan gwbl ddwyieithog i allu cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus cyflawn Gymraeg i'r trethdalwyr.

Mae angen rhaglen weithredu (wedi'i chydlynu o bosib trwy Gomisiynydd y Gymraeg) i sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith weinyddol cyrff cyhoeddus sy'n gwasanaethu siroedd a chymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith mwy na 40% o'r boblogaeth.

Yn yr un modd, dylai Clercod Cyngorau Tref a Chymunedau mewn cymunedau 40%+ o siaradwyr Cymraeg fod yn hyderus ddwyieithog ac yn gallu darparu cofnodion yn y Gymraeg ymhob achos ac yn Saesneg os oes galw/gofyn. Bydd hyn yn golygu fod modd dweud yn glir wrth unrhyw un sy'n symud i'r ardal fod nifer fawr o swyddi yn yr ardal yn ddibynnol ar sgiliau Cymraeg (y gellid ac y dylid eu datblygu wrth gwrs).

2. Busnesau Sector Preifat

Am resymau hanesyddol ac er mwyn hybu cyflogadwyedd a chefnogi busnesau lleol, credwn fod angen targedu'r sector preifat yn benodol gan fabwysiadu cynllun arfer da ieithyddol trwy gydweithio â busnesau er mwyn anelu at gyrraedd trothwy (cwotâu) gweithleoedd o staff dwyieithog fydd yn cyfateb yn fras i ganran siaradwyr Cymraeg y cymunedau/wardiau penodol a wasanaethir. Ar gyfer busnesau sy'n awyddus i fod yn rhan o'r cynllun, gellir mabwysiadu symbol neu arwyddair 'Croeso Cymraeg' ar drywydd tebyg i Fuddsoddwyr mewn Pobl gyda staff sector preifat swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cydweithio yn glos gyda charfan o fusnesau yn y cymunedau neilltuol hyn. Dylid cynnig gostyngiad bychan mewn treth fusnes i unrhyw fusnes sydd eisoes yn medru sicrhau bod y gweithlu a'r busnes yn defnyddio a/neu ddatblygu a gwella eu defnydd cyhoeddus o'r Gymraeg. Gallent gynnig cyngor eang gan gynnwys sefydlu gofynion ieithyddol swyddi unigol ac o fewn timau. Gallai hefyd gynnwys cynllunio i ddefnyddio'r Gymraeg yn weledol a chlywedol dros dreigl amser trwy gynllun 'Helo Blod' Llywodraeth Cymru.

Dylid canolbwyntio yn amlwg ar sectorau sydd y tu hwnt i Fesur yr iaith Gymraeg 2011 ac yn arbennig sectorau lle mae cyswllt arwyddocaol a rheolaidd efo'r cyhoedd, megis gwasanaethau iechyd cychwynnol (Meddygfa, Deintyddfa, Fferyllyfa, Optegwyr), archfarchnadoedd a siopau bwyd, tafarndai, caffis, tai bwyta, gwestai, siopau Stryd Fawr ayyb. Byddwn yn rhagweld fod y cynllun yma yn un a fyddai'n seiliedig ar greu a meithrin perthynas weithiol canol a hirdymor rhwng staff Comisiynydd y Gymraeg a busnesau yn y sector preifat. Daeth yr angen i Gymreigio'r Stryd Fawr i'r amlwg fel un canfyddiad yn ein harolwg yn Eisteddfod Ceredigion 2022 - atodwn gopi o'r adroddiad at eich sylw.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

3. Endidau hybu economi (nid mentrau iaith) i ymgorffori, a phrif-lifo'r Gymraeg o fewn eu gwasanaethau ac wrth gynghori unigolion a busnesau (e.e. Menter Môn)

Yn hanesyddol, mae patrwm wedi bod o sefydlu a chyllido sefydliadau sydd â'r swyddogaeth bennaf neu benodol i hyrwyddo'r Gymraeg. Gwendid hynny yw bod y sector iaith yn ychwanegol neu ar y cyrion i brif sefydliadau ac felly wastad yn ceisio arfogi a dylanwadu. Tra nad oes angen dileu y cyrff hyn, credwn at bwrpas datblygu cymunedol mewn cymunedau Cymraeg bod angen rhoi'r swyddogaeth benodol yma i fudiadau sy'n hybu'r economi, ac ar lawr gwlad mudiadau er lles cymunedol er mwyn prif-lifo'r iaith a diwylliant i fewn i fwrlwm eu gwir weithgareddau - boed yn wirfoddoli, datblygu economi wledig neu wella lles corfforol a meddyliol trigolion. Mae'r mudiadau trydydd sector hyn wedi hen ennill eu plwyf ac yn rhan o rwydwaith o fudiadau trwy Gynghorau Gwirfoddol Sirol. Credwn felly bod gwir angen dynodi swyddogaeth a chyllid ychwanegol i fudiadau mentergarwch cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith weinyddol ac fel iaith gyhoeddus.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

4. Cynyddu darpariaeth a chapasiti cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob math o gyfarfodydd.

Un o broblemau cynyddol mewn cymunedau Cymraeg yw diffyg cyllid ar gyfer talu am gyfieithu ar y pryd. O ganlyniad, mae cyrff unai yn trefnu cyfieithu anffurfiol eu hunain neu'n troi i'r Saesneg. Mewn cymunedau Cymraeg, mae'n gwbl allweddol bod modd cael mynediad at ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd rhad ac am ddim er mwyn parhau i gynnal defnyddio'r Gymraeg a thanlinellu pwysigrwydd y Gymraeg fel priod iaith y gymuned. Gellir gweithredu hyn trwy ryddhau cyllid ychwanegol i'r Mentrau Iaith hynny sydd â chymunedau Cymraeg yn eu dalgylch - mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

5. Y Gymraeg a Thwristiaeth

Diwydiant pwysig mewn nifer o gymunedau Cymraeg yw twristiaeth.

i. Cyflwyno twristiaeth ddiwylliannol

Yn ddiweddar, bu crochlefain yn erbyn cyflwyno treth dwristiaeth, treth sydd yn gyffredin mewn nifer o ardaloedd poblogaidd ar y cyfandir. Diwydiant yw hwn oedd yn talu'r isafswm cyflog drwyddi draw a hynny yn aml i bobl o Ewrop, cyn Brexit. Hyd yma, mae wedi bod yn ddiwydiant tymhorol ei natur ond mae'n cyfrannu dipyn i economi'r ardaloedd Cymreiciaf. Yn anffodus, mae hefyd wedi cyfrannu at Seisnigo'r ardaloedd hyn. Tra'n ymweld â gogoneddau arfordirol Cymru, sylwodd nifer o bobl ar brisiau tai is nag yn Lloegr. Felly, prynwyd ail gartrefi, daethant yn gartrefi ymddeol a chartrefi parhaol gyda'r gallu i weithio o gartref.

Barn arbenigwr ar dwristiaeth ddiwylliannol:

Gan na phwysleisiwyd ein hiaith, ein diwylliant na'n hunaniaeth, ond gan ambell atyniad prin, nid yw'n syndod bod y mewnfudwyr yn setlo gyda meddylfryd tebyg i'r hyn oedd ganddynt cyn cyrraedd. Nid oes raid i hyn fod, yn ôl Yves Champetier.

Bu'n Gydlynnydd Uned Leader yn yr 1990au ac yna Arsyllfa Ewropeaidd Leader. Rhwng 2001 a 2013 bu'n gyfarwyddwr datblygiad busnes yn Siambr Fasnach a diwydiant Montpellier. Ar yr un pryd, 'roedd yn rheoli ymgynghoriad yn arbenigo mewn datblygiadau gwledig a lleol ar raddfa ryngwladol.

Yn dilyn cyfnod gyda Banc Datblygu Rhyng-Americanaidd bu'n cynghori ar ddatblygiadau gwledig yn America Ladin. Ers hynny, mae wedi gweithio yn Rhanbarth Andalusia a chynghori ar Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd.

Ei athroniaeth ar ddatblygu yw "Yr hyn sydd yn wahanol amdanom sydd yn ein gwneud yn ddiddorol. A'r hyn sydd yn ddiddorol sydd yn ein gwneud yn werthadwy".

Yr hyn sydd yn wahanol ac yn ddiddorol amdanom yw ein hiaith a'n hanes. Mae dirfawr angen i'r diwydiant twristiaeth gofleidio'r athroniaeth. Onid oes modd datblygu canolfannau i goffau ein tywysogion, megis Owain Glyndŵr ym Machynlleth? Sut mae cynnig canu gwerin neu gerdd dant neu ddawnsio gwerin neu ganu poblogaidd ieuenctid Cymraeg i ddiddanu ymwelwyr? Os oes rhaid cael cerddoriaeth gefndirol, beth am gynnwys canu ysgafn Cymraeg? A beth am y sector awyr agored gyffrous? Mae cyfleoedd euraidd yma i roi 'Y Profiad gwirioneddol Gymreig' trwy gynlluniau cymhwyso arweinwyr mynydda a gweithgareddau eraill fel a wnaed gan Menter Iaith Conwy yn llwyddiannus gyda dros 200 o siaradwyr Cymraeg yn cymhwyso mewn sector a ystyrir yn draddodiadol fel un Seisnig iawn.

Arweiniodd hyn at sefydlu CAMU fel "Ymgyrch i gynyddu, prif-lifo a hyrwyddo'r profiad Cymreig gwirioneddol yn y sector awyr agored gan Fentrau Iaith Gwynedd, Môn a Chonwy a detholiad o unigolion a chwmnïau sector awyr agored Gogledd Orllewin Cymru. Y nod yw bod pawb sy'n cael profiadau awyr agored yn dysgu mwy am iaith a diwylliant, hanes, daearyddiaeth, bywydeg, bioleg, enwau cynhenid Cymreig, chwedloniaeth ac arwyr Cymreig." Aethpwyd ati i hyrwyddo nodweddion unigryw Cymru ac i geisio denu mwy o fusnes i ddarparwyr Cymraeg a Chymreig, gan ddatblygu cyfeirlyfr o ddarparwyr (llawrydd a chwmnïau) sydd wedi eu lleoli ac yn gweithredu yng Ngwynedd, Conwy a Môn.

Gallai pwyslais gwahanol ddenu math gwahanol o ymwelydd a rhai a allai fod yn dod gydol y flwyddyn. Mae'n werth ystyried athroniaeth Champetier a gweithredu ei egwyddorion.

ii. Rhoi'r diwydiant twristaidd mewn dwylo lleol

Mae posibiliadau manteisio'n ariannol ar y diwydiant twristaidd, a chlymu hyn wrth raglen darparu tai cymdeithasol. Dylid creu cronfa gychwynnol sylweddol er mwyn prynu tai gwag. O osod cyfran o dai i'w llogi gan dwristiaid, bydd incwm cynyddol yn cael ei greu i'w fuddsoddi mewn tai cymdeithasol, neu dai addas i'r boblogaeth leol.

Byddai hyn ar y naill law yn creu swyddi pwrpasol i frodorion, e.e. yn y diwydiant adeiladu, gweinyddu a gweini, a byddai ar y llaw arall yn cyfrannu at greu tai addas i'r boblogaeth leol.

Mae angen gweithredu hyn ar lefel uchelgeisiol i fod yn effeithiol. Cyflwynwyd y syniad hwn eisoes i'r Llywodraeth ac edrychwn ymlaen at weld hyn yn cael ei roi ar brawf.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

Cwestiwn 11: Tai

1. Tai haf

Mae nifer o argymhellion pwrpasol yn nogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru – "cynllun Tai Cymunedau Cymraeg"

- Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd i'w rhentu.
- Cadw'r cynnydd o 1% yn y Dreth Trafodion Tir a godir ar brynianau ail gartrefi
- Datblygu'r syniad o dai cydweithredol sydd yn gyfarwydd yn Ewrop a'r UDA ond yn elfen fach yng Nghymru hyd yn hyn.

Mae potensial yn y cynllun i brynu a datblygu eiddo o fewn y stoc tai, megis tai gwag. Mae'r rhaglen Cymunedau'n Creu Cartrefi eisoes yn bodoli gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n gysur gweld yr ymgynghoriad yn cydnabod "gall yr angen am anheddau newydd fod yn gymharol fach". Mae'r sylw yn ategu ymchwil Dyfodol i'r Iaith yn y siroedd lle mae cymunedau Cymraeg, a gobeithio y bydd y siroedd hynny yn cyfyngu'r targedau cyfanswm tai yn eu CDLlau i anghenion lleol.

Mae trafodaeth drylwyr yn parhau am effaith ail gartrefi ar y cymunedau Cymraeg a chroeso gofalus i nifer o gynlluniau'r Llywodraeth. Ond mae perygl hefyd ac un a nodwyd gan Simon Brooks yn ei adroddiad. Os bydd nifer o berchnogion ail gartrefi yn penderfynu gwerthu oherwydd trethi uchel, ceisio am ganiatâd cynllunio a gofynion ychwanegol, mae'n eithaf posibl bydd y tai yn mynd i ddwylo mewnfudwyr di-Gymraeg parhaol. Byddai hyn yn gwanhau'r iaith ymhellach oni bai bod cyfundrefn gymathu effeithiol yn weithredol.

2. Prynu tai

Tybed a oes modd cynorthwyo pobl leol i brynu'r tai pan ddônt at werth, gydag amodau ar ddychwelyd tai i'r corff cynorthwyo i'w hailwerthu i bobl leol. Bydd angen cyfnod o amser i weld a all rhywun lleol fanteisio ar y gwerthiant. Os nad oes rhywun yn medru cyrraedd y pris gofynnol, a oes modd sefydlu cronfa i gynorthwyo'r prynwr lleol gyda ad-daliadau ar raddfa llog isel, fel eu bod yn cyrraedd y pris gofynnol? Yn naturiol, bydd angen sicrhau fod y pris gwreiddiol yn un teg. Dyma rai ystyriaethau:

- i. Gorffen yr anghyfartaledd manteision peidio talu TAW ar dai newydd tra'n talu'r dreth ar adnewyddu tai.
- ii. A oes modd cynnig iawndal i berchnogion lleol sydd yn gwerthu eu heiddo i drigolion lleol ond yn wynebu colled ariannol am wneud hynny?
- iii. Opsiwn arall yw efelychu patrwm ynysoedd Jersey a Guernsey sydd yn clustnodi canran o dai ar gyfer pobl yr ynysoedd.
- iv. Byddai benthyciadau llog isel i gynorthwyo pobl ifanc i brynu tai fforddiadwy yn lleol o fudd. Mae'n bwysig diffinio fforddiadwyedd yn nhermau cyflogau lleol. Dylid cynnig blaenoriaeth i bobl leol gyda phwyslais ar y Gymraeg wrth ystyried grantiau, tai cymdeithasol a phryniant cartrefi cyntaf. Tra bod gan bobl ifanc ddyhead yn aml i ledaenu adenydd, byddai'n dda gweithredu cynllun i ddenu nifer yn ôl i'w bröydd.
- v. Cynllun rhannol berchnogaeth. Fel y dywedodd yr Athro Colin Williams, Prifysgol Caerdydd, "gallai Llywodraeth Cymru gryfhau rhai o'r cymhellion mewn tai cymunedol, megis modelau perchnogaeth cymunedol a fyddai'n trosglwyddo eiddo a thir i gymdeithasau tai lleol neu fentrau cymdeithasol, gan helpu i leihau yr argyfwng tai." Gwyddom eisoes am sawl cynllun sy'n bodoli'n barod <https://www.gov.wales/help-buy-wales-shared-equity-loan-scheme> ond credwn y dylid blaenoriaethu'r cynlluniau hyn i gymunedau Cymraeg a hynny fel mater o flaenoriaeth tymor byr. Tybed oes modd creu cynllun mwy penodol a manteisiol fyth ar gyfer cymunedau Cymraeg o gofio bod y cymunedau hyn mor amhrisiadwy i'r iaith a'r diwylliant? Byddai hynny'n gydnaws â'r pwyslais cynyddol a roddir ar fflora a ffawna prin ac at warchodaeth gadwraethol.

3. Tai rhent

Mae mwy o bobl ifanc yn rhentu tai, felly mae croeso i'r bwriad o adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol i'w gosod ar rent. Efallai bod gormod o bwyslais wedi bod ar bryniant gan agor y drws i adeiladu o safon isel a chwmnïau yn meddwl mwy am eu buddsoddwyr na'u gweithwyr a'u cwsmeriaid. Mae'r syniad o rentu yn gyffredin ar y cyfandir a bu cenedlaethau o bobl yn byw'n gysurus mewn tai cyngor ar hyd eu hoes. Yn naturiol, mae angen tegwch rhwng hawliau'r tenant a'r perchnogion a safon deilwng i'r tai. Mae tystiolaeth o Lundain bod datblygiadau tai cymdeithasol yn ennill gwobrau dylunio.

4. Tai Cymdeithasol

Mae peth pryder am dai cymdeithasol yn y cymunedau Cymraeg a'r awgrym bod cynghorau yn Lloegr yn talu awdurdodau yng Nghymru am dderbyn tenantiaid na allant hwy eu cartrefu. Mae angen ymchwil brys i weld a oes gwirionedd i'r honiadau hyn.

Os ydym i danlinellu pwysigrwydd y Gymraeg, mae angen blaenoriaethu rhai sydd yn defnyddio'r iaith. Nid yw hyn yn gwahaniaethu ar sail cenedl na hil gan fod modd dysgu iaith a mesur gallu person i'w siarad. Materion eraill sydd angen eu cwmpasu wrth drafod tai yw'r canlynol:

- i. Newid sail y gyfundrefn gynllunio o "ddefnydd tir" i "stoc tai"
- ii. Y dadansoddiad o stoc tai i gynnwys tai gwag a thai ar werth - a hynny yn sail i'r CDLLau.
- iii. Wrth lunio'r CDLLau, dylai Awdurdodau Lleol orfod ystyried y raddfa geni/marw dros y ddegawd flaenorol.
- iv. Yr effaith ar y Gymraeg o weithredu'r CDLL yn ffactor statudol ac i'w ymgymryd gan asiantaeth[au] annibynnol.
- v. Y CDLLau i orfod blaenoriaethu tai cymdeithasol a thai fforddiadwy hyd at 2050. Blaenoriaeth isel i dai 3-4 ystafell wely. [2050... y targed o filiwn o siaradwyr]
- vi. Y gwaith adeiladu i'w wneud gan gwmnïau lleol.
- vii. Sicrhau bod y cyfrifoldeb am bob elfen o'r gwaith adeiladu yn gyfreithiol glir.
- viii. Cyflenwad digonol o dai cymdeithasol i'w gosod i bobl y sir ac nid pobl o'r tu hwnt i Gymru, a'r Gymraeg yn ffactor manteisiol wrth chwilio am dŷ o'r fath. [Angen ymchwil brys i weld a oes rhai awdurdodau wedi derbyn arian gan siroedd yn Lloegr i gynnig cartrefi cymdeithasol]
- xiv. Awdurdodau lleol i gymryd meddiant o gymdeithasau tai os nad ydynt yn dilyn blaenoriaethau'r awdurdod. Dylai hyn hefyd gynnwys hawl buan i brynu tai gwag gan awdurdodau lleol. Ymhellach, gallai Awdurdodau lleol gymryd rhan yn y farchnad dai i gynnig tai cymdeithasol a llety i dwristiaid.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

Cwestiwn 12: Unrhyw faes arall

1. Cyflawni argymhellion Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Byddai sefydlu Awdurdod Iaith Cenedlaethol hyd braich yn fodd o gyd-drefnu cynllunio iaith trylwyr yn genedlaethol ac yn lleol o fewn y cymunedau Cymraeg. Mae is-adran y Gymraeg y Llywodraeth o dan bwysau mawr o sawl cyfeiriad, gyda chyfrifoldebau amrywiol a chyllid annigonol. Mae gan y Llywodraeth gyrff sy'n gweithredu'n strategol yn eu priod feysydd, e.e. Croeso Cymru i hybu twristiaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru i warchod yr amgylchedd, gyda gwariant blynyddol o £241,919,000. Mae'r iaith Gymraeg yn haeddu corff cynllunio grymus, gyda chyllid a all wneud gwahaniaeth.

Dewis arall fyddai ymestyn cylch gorchwyl y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i wireddu'r argymhellion dros dyweder 5 mlynedd. Neu gellir tynnu ynghyd gweithgor o blith y 9 Cyngor Sir sydd â'r cymunedau mwyaf Cymreig a sefydlu is-weithgor ar gyfer cymunedau Cymreiciaf Gwynedd, Môn ac Uwchaled.

Dewis pellach fyddai ymestyn swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg i gwmpasu argymhellion CCC o dan adain fyddai â chyfrifoldeb dros ddelio â cheisiadau cynllunio, Aseidiadau Effaith Ieithyddol ac apeliadau Cynllunio lle mae'r iaith yn ffactor yn y penderfyniad. (Gweler sylw o dan bwynt 7 cwestiwn 8 Cynllunio Gwlad a Thref uchod) Ond mae'n debygol iawn y byddai'r cylch gorchwyl yn cwmpasu mwy na Chynllunio Gwlad a Thref yn unig, wrth gwrs.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

2. Brodorion di-Gymraeg

Mae angen targedu brodorion di-Gymraeg o ran hanes yr iaith a hanes Cymru a dysgu Cymraeg. Mae tueddiad i anghofio am y garfan hon a chanolbwyntio yn llwyr ar fewnfudwyr o Loegr. Yn genedlaethol, yn ôl Cyfrifiad 2021, gwelir bod 22% o'r trigolion yn enedigol o Loegr a 71% yn enedigol o Gymru (19% yn 2011 yn gallu'r Gymraeg ond nid yw pob un yn enedigol o Gymru, 'debyg). Cyhoeddwyd ystadegau gan Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2011 yn nodi mai ond 20% o fewnfudwyr i Wynedd aeth ati i ddysgu Cymraeg ac oddeutu 15% yng Ngheredigion.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

3. Cynyddu peuoedd Cymraeg

Mae tystiolaeth gynyddol bod sawl peth yn digwydd i'r Gymraeg, ac wedi digwydd ers tro, yn gymunedol:

- i. Diflaniad canolfannau cymdeithasu traddodiadol, yn benodol capeli ac ysgolion, ac efallai neuaddau pentref.
- ii. Lleihad yn nifer y cartrefi Cymraeg.
- iii. Diflaniad cenedlaethau a fu'n byw yn bennaf trwy'r Gymraeg.
- iv. Cynydd yn nifer pobl ifanc sy'n gallu siarad yr iaith ond heb ei defnyddio.

Mae angen rhoi sylw i'r syniad o bwysigrwydd gwahanol beuoedd ym mywyd yr unigolyn, a thargedu gwahanol beuoedd yn benodol er mwyn creu amgylchiadau sy'n caniatáu i'r Gymraeg gael ei defnyddio'n ddirwystr mewn rhagor o beuoedd.

Y dylanwad pwysicaf ar y defnydd o Gymraeg, yn ôl sawl ymchwil, yw bod pobl ifanc yn derbyn yr iaith ar yr aelwyd. Yr ail ddylanwad yw bod y gymdogaeth yn Gymraeg, sef yr ardaloedd 60%+. Dyma'r prif dargedau, felly.

Arwyddocâd yr aelwyd a'r gymuned

Mewn gwaith a wnaed ym Mhrifysgol Abertawe ugain mlynedd yn ôl, canfuwyd bod patrymau iaith ardaloedd 40% yn nyffryn Aman, cwm Tawe a Llanelli, yn ymdebygu i batrymau defnyddio'r iaith yn Abertawe gymharol Seisnigedig.

Dadleuodd Joshua Fishman fod canfyddiad o enciliad iaith yn peri i siaradwyr droi i'r iaith fwyafrifol yn llawer cynt na'r angen, gan bryso enciliad yr iaith leiafrifol.

Mae tasg fawr yn wynebu'r sawl sydd am wrthdroi'r shift ieithyddol yma, ac mae angen rhoi blaenoriaeth i'r defnydd o Gymraeg yn y cartref.

Er mai mater o ddewis yw hyn, po fwyaf o sefyllfaoedd a geir i ddefnyddio'r iaith heb ddewis, e.e. yn y gwaith, gellir tybio y bydd yr arfer o ddefnyddio'r iaith trwy gydol y dydd yn dylanwadu ar naturioldeb defnyddio'r iaith yn y cartref. Mater i ymchwil yw hyn.

Mae yng Nghymru ddiffyg gwybodaeth am batrymau defnydd iaith, er bod rhai astudiaethau wedi'u gwneud. Er mwyn gwybod a yw gweithgareddau i gefnogi'r Gymraeg mewn cymunedau'n llwyddiannus, bydd angen creu deunydd pwyso a mesur manwl, ar sail ymchwil sosioieithyddol cydnabyddedig.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

Polisi iaith uniongyrchol

Mae'r comisiwn yn awyddus i dderbyn tystiolaeth am bolisi iaith uniongyrchol mewn cymunedau Cymraeg.

Wrth 'bolisi iaith uniongyrchol', rydym yn golygu polisiau sy'n ceisio cryfhau'r Gymraeg fel iaith oddi mewn i gymunedau Cymraeg, yn hytrach na pholisiau sy'n ceisio cryfhau'r cymunedau eu hunain.

Cwestiwn 13: Pa mor effeithiol yw polisi iaith uniongyrchol mewn cymunedau Cymraeg?

Yn ein profiad ni, prin ac annigonol iawn yw gwaith ymchwil mewn cymunedau penodol a diffyg un sefydliad cynllunio ieithyddol penodol i'w gwirio yn ogystal. Ond mae sawl astudiaeth o effeithiolrwydd polisiâu iaith uniongyrchol mewn ysgolion dwyieithog yn bodoli - hunan asesiadau ac asesiadau allanol ac mewn adroddiadau gan ac ar ran Estyn. Gellir troi'r cwestiwn ar ei ben a gofyn pa mor effeithiol yw polisi ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yn y cymunedau hynny sy'n bodoli oddi fewn iddynt?

Gwyddom o brofiad nad y polisiâu unigol yn aml iawn sydd yn llywio eu tynged o ran gwaddol ac effaith ond faint o adnoddau dynol ac ariannol a lefel y pwysigrwydd ymarferol a roddir iddynt o ran y gweithredu. O gofio natur bregus cymunedau Cymraeg a bod pryder gwirioneddol y gallai pob un uwchlaw trothwy o dyweder 60% ddiplannu'n llwyr ymhen cenhedlaeth, mae'n gyfan gwbl allweddol bod adnoddau digonol ar gael i weithredu polisi iaith ynghyd â pholisiâu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eraill ar gymunedau Cymraeg. 'Allwn ni ddim fforddio methu. Unwaith y bydd cymunedau o'r fath wedi diplannu, dyna fydd ei diwedd hi gyda dirywiad ieithyddol yn deillio o broses a phatrwm o drosglwyddiad ieithyddol o un iaith i'r llall ar droed.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

Cwestiwn 14: Sut gallwn ni gryfhau polisi iaith uniongyrchol mewn cymunedau Cymraeg?

1. Addysg

Symud yr ysgolion cyfrwng Saesneg ar hyd y llwybr Cymraeg mor fuan â phosibl. Mewn siroedd megis Gwynedd, mae modd hepgor dilyn polisi iaith addysg y sir trwy ddewis mynd i Ysgol Uwchradd Friars, Bangor, neu fynd i ysgol breifat sydd ddim o dan ofynion addysg statudol o gwbl. Hefyd, mae'n deg dweud fod y pwyslais a'r bri a roddir i'r Gymraeg yn gallu amrywio o ysgol i ysgol yn ddibynnol ar flaenoriaethau'r Pennaeth a'r Bwrdd Llywodraethwyr.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

2. Cynllunio Ieithyddol ymatebol

Dim ers dyddiau cyhoeddi 'Iaith Pawb' yn ôl yn 2002 y cafwyd unrhyw sôn am gymunedau Cymraeg *per se*. Soniwyd bryd hynny am darged penodol i "atal y dirywiad yn nifer y cymunedau lle siaredir Cymraeg gan dros 70% o'r boblogaeth." Erbyn heddiw, yng nghyd-destun cynllunio ieithyddol cymunedol trwy law y Mentrau Iaith, mae cynllunio ieithyddol Cymru gyfan yn unffurf a safonol o Fôn i Fynwy. Credwn yn gryf bod hi bellach yn angenrheidiol i graffu yn fanylach ar batrwm iaith fesul rhanbarthau neu siroedd a chynllunio blaenoriaethau ar y seiliau hynny. Yn ogystal, credwn fod angen clustnodi cyllid ychwanegol i gymunedau Cymraeg naturiol ar y sail bod tebygrwydd uwch o gael llwyddiant mewn cymunedau felly nac mewn cymunedau lle mae siaradwyr Cymraeg yn gynyddol yn y lleiafrif.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

3. Pobl 65 oed +

Mewn cymunedau Cymraeg, mae canrannau uchel o'r grwp oedran 65+ yn siaradwyr Cymraeg gyda nifer yn byw eu bywyd o ddydd i ddydd yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg. Yn sgil diffyg ymarfer, colli geirfa, henaint ayyb bydd cyfran o'r garfan yma yn troi yn ôl i fod yn unigolion uniaith Gymraeg. Mae'n gwbl allweddol felly fod holl wasanaethau iechyd, gofal a gofal cymdeithasol yn y cymunedau hyn yn rhoi statws uchel a gwireddu'n llawn Mwy na Geiriau - Y Cynnig Rhagweithiol. Yn aml iawn, clywn am ddiffyg staff gofal cartref neu mewn cartrefi henoed/nyrsio sy'n gallu siarad Cymraeg ac ar adegau at achosion o anghwrteisi a diffyg ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iaith. Mae'r un peth yn wir ar gyfer plant cyn oed ysgol ac yn yr ysgol a gwasanaethau iechyd meddwl heb sôn am wasanaethau therapi lleferydd lle mae'r diffygion yn bryderus dros ben. Rhaid tacio

cyfundrefn o'r fath fel blaenoriaeth a hynny wedi ei gynllunio o ran mapio allan beth yw anghenion cymunedau Cymraeg. Mae'r wybodaeth yma eisoes ar gael gan Gyngorau Sirol, Byrddau Iechyd, Meddygfeydd ayyb.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

4. Cyngorau Lleol

Dylai swyddfeydd ardal Cyngorau eraill megis Môn, Ceredigion, Sir Gâr fabwysiadu patrwm gweinyddiad mewnol Cyngor Gwynedd o ran defnyddio'r Gymraeg ar y cyflymdra eithaf a monitro'r datblygiad. Dylid hefyd ddwyn pwysau ar sefydliadau megis Canolfannau Hamdden, Theatrau a Chanolfannau Siopa i Gymreigio'i gwasanaeth e.e hyfforddiant staff, Iaith Gwaith a cherddoriaeth gefndirol Gymraeg. Dylai Clercod Cyngorau Tref a Chymunedau mewn cymunedau 40%+ siaradwyr Cymraeg fod yn hyderus ddwyieithog ac yn gallu darparu cofnodion yn y Gymraeg ymhob achos ac yn Saesneg os oes galw/gofyn.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

5. Mentrau Iaith

Mae llawer o waith clodwiw yn digwydd ond mae angen bod yn ymwybodol o'r heriau. [Er enghraifft, ni fu'n realistig o'r cychwyn i gyplysu Llanelli a Chwm Gwendraeth dan yr un ymbarél.] Mae angen ystyried sut mae modd rhoi i'r Mentrau Iaith rôl cynllunio iaith uchelgeisiol a phroffesiynol.

Mae angen canolbwyntio ar themâu penodol gan ystyried natur yr her: ai diffyg hyder Cymry Cymraeg yw'r her fwyaf, difaterwch y di-Gymraeg neu fewnfudwyr. Hefyd, mae angen mynd ati o ddiffri i geisio mesur yn well rôl a chyfraniad y Mentrau Iaith a'r bwrlwm gweithgareddau a gynhaliant. Ar hyn o bryd, proses o gasglu niferoedd mynychu a niferoedd digwyddiadau ydyw ac nid oes a wnelo hynny ddim ymron â defnyddio iaith.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

6. Canolfannau (Unedau) Iaith

Gallant fod yn bwerdai i hybu'r iaith gan ganoli ymdrechion sawl mudiad sydd yn gefnogol i'r Gymraeg. Y gamp fydd iddynt fod yn ymwybodol o'r meysydd y cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad yma a thaclo pob un ohonynt.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

7. Cyrff cyhoeddus

Amrywiol yw agwedd cyrff cyhoeddus at y Gymraeg. Yn ddiweddar, daeth yn amlwg fod Heddlu Dyfed Powys yn bwrw ati o ddiffri i hybu'r iaith. Mae angen i'r cyrff cyhoeddus eraill ddilyn yr esiampl yma. Mae Heddlu Gogledd Cymru eisoes wedi arwain y ffordd ac wrth gwrs mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn fwy pellgyrhaeddol nag unrhyw endid arall yng Nghymru. Yr hyn sy'n gwbl greiddiol i gymunedau Cymraeg yw fod pob corff cyhoeddus a chwmni sector preifat dros dreigl amserlen benodol yn ymgorffori a gweithredu ar seiliau Mwy na Geiriau - Y Cynnig Rhagweithiol. Rhaid cychwyn o'r rhagdybiaeth mai Cymraeg yw iaith gyntaf y cymunedau hyn ac felly cwrteisi sylfaenol a synnwyr cyffredin yw ei defnyddio fel cyfarchiad cyntaf gyda chwsmer neu ddefnyddiwr gwasanaeth. Os nad oes modd ei warantu mewn cymunedau Cymraeg, yna mae ceisio ei wireddu yn ehangach yn llawer mwy heriol.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

Cwestiwn 14: Sut gallwn ni gryfhau cymunedau Cymraeg mewn cytgordd â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru?

Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn awyddus i dderbyn tystiolaeth am sut i gryfhau cymunedau Cymraeg mewn modd sy'n cydblethu ag amcanion eraill Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn bwysig am fod rhaid i bolisïau o blaid cymunedau Cymraeg gwmpasu sawl maes. O ganlyniad, mae angen iddynt weithio yng nghyd-destun ehangach polisi cyhoeddus, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol ac hefyd i fabwysiadu polisïau amgylcheddol llesol. Yn yr enghraifft hon, byddai gennym ddiddordeb clywed am bolisïau sydd yn ogystal â chryfhau cymunedau Cymraeg hefyd yn llesol i'r amgylchedd.

Cwestiwn 15: Sut gallwn ni gryfhau cymunedau Cymraeg mewn modd sy'n cydblethu â rhai o amcanion eraill Llywodraeth Cymru?

Mae angen sicrhau cyllid digonol i sefydlu'r nifer angenrheidiol o Fentrau Iaith a chyllido o'r newydd fentrau cymunedol/trydydd sector i fynd â'r Gymraeg i'r gymuned ac i galonnau a chartrefi trigolion. Ar yr un pryd, yn dilyn gosod disgwyliadau realistig ar waith y Mentrau, bydd monitro datblygiadau yn ddisgwyliedig. Ond y gwir yw, mewn nifer o'r cymunedau Cymreiciaf un, y bydd aelodau'r cyhoedd yn gofyn pam fod angen ymyrraeth ieithyddol yma. Mae felly angen argyhoeddi ac addysgu gan roi cyflwyniadau am hanes y Gymraeg ac astudiaeth gyfoes o ddirywiad ieithyddol siroedd Ceredigion a Chaerfyrddin i danlinellu pa mor fregus yw'r sefyllfa.

Nodwyd eisoes yr angen i gydweithio gyda ffermwyr Cymru yn y broses plannu coed yn hytrach na chaniatáu cwmnïau o Loegr "wyrddolchi" eu hallaniadau.

Gofalu bod y nifer cyfyngedig o dai sydd eu hangen yn y cymunedau Cymraeg yn cyrraedd y safonau amgylcheddol uchaf.

Mae angen i'r dadleuon dros gynaliadwyedd ac amrywiaeth gael eu trosglwyddo i iaith a diwylliant. O wneud hynny, ac ymestyn y defnydd y Gymraeg yn gymdeithasol yn ogystal ag yn y sector cyhoeddus, mae siawns y gellir gweld y Gymraeg yn ffynnu yn y cymunedau Cymraeg erbyn 2050 a hynny mewn cymunedau cydlynus sydd yn gefnogol iddi.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

Cwestiwn 16: Sut gallwn ni gryfhau cymunedau Cymraeg yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

Mae dau o amcanion penodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hollol berthnasol i'r cymunedau Cymraeg:

- Cymru o gymunedau cydlynus a
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cyfeiriwyd eisoes at enghreifftiau o sloganau dadleuol a ymddangosodd yn Sir Gaerfyrddin a Gwynedd. Mae'n bosibl na fydd ail adrodd agweddau o'r fath. Ond mae hefyd yn bosibl eu bod yn adlewyrchu tensiynau sydd yn bodoli yn y cymunedau Cymraeg.

Os yw'r Gymraeg i ffynnu yn y cymunedau Cymraeg mae'n dilyn fod yn rhaid ffafrio'r iaith am gyfnod. Os na wneir hyn, parhau i encilio a gwanhau fydd ei thynged. Mae'r perygl o ddirywiad i bwynt o ddiflaniad fel gwir iaith gymunedol yn rheswm moesol dilys dros y rheidrwydd o flaenoriaethu o blaid y Gymraeg yn y cymunedau cynyddol brin hyn. Gan fod canlyniadau Cyfrifiad

2021 yn egluro'r sefyllfa, mae canrannau y siaradwyr yn y cymunedau Cymraeg, ac ar draws 18 o 22 sir Cymru, yn gostwng a hynny er gwaethaf yr ymdrechion a wnaed eisoes. Gall hyn arwain at densiynau rhwng y rhai sydd yn teimlo bod y Gymraeg yn greiddiol i hunaniaeth y genedl ac eraill fydd yn dadlau mai gwastraff arian ac adnoddau yw ei chefnogi.

Cyfeiriwyd eisoes at rai o'r rhesymau dros siarad Cymraeg a bydd angen dadlau'n gadarn o'u plaid os yw'r ddau amcan uchod i'w gwireddu. Bydd angen cyhoedduswydd ar oedolion a ddysgodd y Gymraeg gydag enghreifftiau o'r tu hwnt i Gymru yn elfen bwysig.

- Blaenoriaeth isel - gweithredu tymor canol

Pobl ifanc a theuluoedd ifanc mewn cymunedau Cymraeg

Mae diffyg cydbwysedd o ran oedran mewn sawl cymuned Gymraeg. Mae methiant i gadw pobl ifanc neu deuluoedd ifanc yn y cymunedau hyn, neu i ddenu ieuenctid neu deuluoedd i fyw yno, yn tansilio'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Cwestiwn 17: Sut gallwn ni sicrhau cydbwysedd gwell o ran oedran mewn cymunedau Cymraeg, gan greu sefyllfa lle mae mwy o bobl ifanc a theuluoedd ifanc yn byw yno?

1. Blaenoriaeth economaidd

Mae angen rhoi blaenoriaeth i ddatblygu cynlluniau economaidd gyda chwistrelliad o gyllid a datblygu gweithlu dwyieithog gwirioneddol ar draws pob sector i wasanaethu cwsmeriaid Cymraeg. Bydd hynny yn arwain at fwy o swyddi lleol yng ngofal siaradwyr Cymraeg lleol. Mae angen gwneud gwybodaeth o'r Gymraeg yn sgil a dderbynnir ar draws y sector preifat.

Gweithwyr di-Gymraeg mewn ardaloedd Cymraeg:

Gwyddom o brofiad mewn sawl ardal cynifer o newydd-ddyfodiad di-Gymraeg sy'n gweithio mewn archfarchnadoedd a heb gael unrhyw hyfforddiant am ymwybyddiaeth na chwarteisi ieithyddol na gofal cwsmer Cymraeg. O ganlyniad, mae eu hymateb i gwsmer sy'n cychwyn sgwrs yn y Gymraeg yn anffodus o haerllug ac anghwrtais. Gofynnwyd i gwsmer arall adael siop ym Mhwillheli am ddechrau sgwrs gyda'r aelod staff yn Gymraeg. Mae sefyllfaoedd fel hyn yn gwbl annerbyniol mewn unrhyw leoliad ond fwyfwy byth mewn cymunedau Cymraeg.

2. Trefn gaffael

Mae angen ystyried o'r newydd holl broses caffael a chytundebau lefel gwasanaeth mewn cyrff sy'n cyflenwi cymunedau Cymraeg. Gwyddom am sawl achos lle mae cwmnïau mawr o Loegr yn dod i adnewyddu llwybrau cyhoeddus ym Mhen Llŷn a Dinbych a'r duedd reolaidd iawn o gredu bod cwmnïau o Loegr, ac yn arbennig Llundain, yn rhagori ar rai cynhenid. Gan nad oes angen dilyn yr un amodau bellach ers gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae angen codi pwysoliad a gwerth ceisiadau gan unigolion a chwmnïau dwyieithog lleol i gyflawni gwaith ar ran y sector cyhoeddus a Llywodraeth Ganol. Yn yr un modd, lle daw'n amlwg nad oes cwmni neu gapasiti yng Nghymru yna mae angen amlygu hynny a chynllunio i gau'r diffyg yn y dyfodol trwy greu cwmni o'r fath. Mae adroddiadau gwahanol yn sôn am ffigyrau amrywiol ond mae'n debygol bod dros 50% o holl wariant cyhoeddus Cymru trwy gaffael yn mynd i gwmnïau yn Lloegr. Rhaid atal y patrwm hwn ar frys er mwyn hybu economi Gymreig a chadw'r bunt yn lleol.

3. Cadw myfyrwyr yng Nghymru

Cyfeiriwyd gennym uchod am y drwg y mae anfon y rhan fwyaf o'n myfyrwyr i brifysgolion yn Lloegr yn debygol o'i achosi i gymunedau Cymraeg. Awgrymwyd gennym uchod sut y gellir ceisio atal hyn.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg am weld cymunedau Cymraeg sy'n amrywiol, yn gynhwysol, ac o blaid cydraddoldeb.

Cwestiwn 18: Sut gallwn ni gryfhau cymunedau Cymraeg mewn ffordd sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth?

Mae'r Gymraeg yn cyfrannu'n naturiol at amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol yr ynysoedd hyn ac yn wir ddiwylliannau'r byd. Mae'n un o ieithoedd hynaf Ewrop ond un sydd dan fygythiad gwirioneddol fel iaith gymunedol fyw. Ar sail patrymau'r Cyfrifiad ers 1981, byddwn wedi colli pob cymuned o 70%+ siaradwyr o fewn cenhedlaeth. Dylai hynny ynddo'i hunan fod yn rheswm digonol i ragnodi statws gwarchodol Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig iddynt yn yr un modd ag Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a safleoedd treftadaeth y byd UNESCO. Mae'r Gymraeg wedi ei datganoli i Lywodraeth Cymru fel un o'i chyfrifoldebau.

Mae cyfle euraidd yma ac rydym yn mawr obeithio y bydd adroddiad y Comisiwn hwn yn arwain at argymhellion gweithredu pwrpasol, cadarn ac wedi eu cyllido'n ddigonol i'r tymor canol yn unol â'r argymhellion yn yr ymateb hwn. Oni wneir hynny, does dim amheuaeth y gwelwn ddifflaniad y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw o dir Cymru.

Nid yw'r ymdrechion i sicrhau parhad a ffyniant y Gymraeg yn rhai sydd yn cychwyn o safle cyfartal. Wynebwn her a bygythiad sylweddol i'n hiaith gan un o ieithoedd mwyaf pwerus y byd sydd drws nesaf i ni. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifri eisiau sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg, mae'n hanfodol, er mwyn cael cyfle realistig iddi oroesi a ffynnu, gynnig ffafriaeth neu ragnodi goruchafiaeth iddi dros yr iaith Saesneg. Golyga hyn gymryd camau arloesol ac anodd ac mae gan y cymunedau Cymraeg rôl allweddol yn y broses dros y degawdau nesaf. Mae'r argymhellion gan Dyfodol i'r Iaith yn dod gan grŵp lobio o aelodau a chefnogwyr ar lawr gwlad ledled Cymru. Yn eu plith mae Cynllunwyr Iaith, Dysgwyr Cymraeg i Oedolion, Athrawon, Darlledwyr, Ymgyrchwyr, Gwleidyddion ac yn bennaf oll, caredigion y Gymraeg sydd yn ddiffuant o blaid gweld ein trysor cenedlaethol yn cael ei ddiogelu, ei hyrwyddo a'i adfywio dros y degawdau nesaf. Hyderwn y gwelwn hynny'n digwydd.

Atodiad A:

Adrannau Etholiadol - siaradwyr Cymraeg - Cyfrifiad 2011

1. Adrannau Etholiadol 70%+ siaradwyr Cymraeg - 49 adran etholiadol mewn 3 sir (Categori 1 Uchaf (i))

Gwynedd (40)

W05000083: Llanrug	87.8
W05000093: Peblig (Caernarfon)	87.4
W05000097: Penygroes	86.8
W05000054: Cadnant	86.2
W05000048: Bethel	85.8
W05000103: Seiont	85.3
W05000089: Menai (Caernarfon)	83.9
W05000049: Bontnewydd	82.6
W05000085: Llanwnda	81.6
W05000071: Groeslon	81.3
W05000092: Ogwen	81.2
W05000098: Porthmadog - Dwyrain	80.1
W05000043: Abererch	79.8
W05000062: Diffwys a Maenofferen	79.3
W05000101: Pwllheli - Gogledd	79.1
W05000084: Llanuwchllyn	78.6
W05000047: Bala	78.5
W05000105: Teigl	78.5
W05000102: Pwllheli - De	78.3
W05000051: Bowydd a Rhiw	78.2
W05000086: Llanystumdwy	77.0
W05000091: Nefyn	76.1
W05000050: Botwnnog	75.9
W05000110: Waunfawr	75.8
W05000082: Llanllyfni	75.5
W05000095: Penrhyndeudraeth	74.8
W05000078: Llanberis	74.7
W05000060: Deiniolen	74.4
W05000067: Efail-newydd/Buan	74.3
W05000041: Aberdaron	74.2
W05000108: Tudweiliog	73.9

W05000075: Llanaelhaearn	73.8
W05000069: Gerlan	73.7
W05000055: Clynnog	73.2
W05000106: Trawsfynydd	73.1
W05000058: Cwm-y-Glo	72.1
W05000090: Morfa Nefyn	72.0
W05000079: Llandderfel	70.8
W05000104: Talysarn	70.7
W05000094: Penisarwaun	70.6

Ynys Môn (8)

W05000013: Cyngar	80.8
W05000038: Tudur	80.7
W05000011: Cefni	80.5
W05000885: Llanfihangel Ysgeifiog	75.8
W05000005: Bodffordd	73.3
W05000007: Braint	73.2
W05000008: Bryngwran	71.2
W05000014: Gwyngyll	70.5

Conwy (1)

W05000149: Uwchaled	70.8
---------------------	------

**2. Adrannau Etholiadol - siaradwyr Cymraeg 60% - 69% - 31 adran etholiadol
mewn 7 siroedd (Categori 1 Uchaf (ii))**

Gwynedd (10)

W05000107: Tregarth a Mynydd Llandygai	69.0
W05000063: Dolbenmaen	67.6
W05000065: Dolgellau - De	67.1
W05000100: Porthmadog - Tremadog	66.8
W05000111: Y Felinheli	64.3
W05000057: Criccieth	64.2
W05000080: Llanengan	63.4
W05000052: Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd	63.2
W05000046: Arllechwedd	61.9
W05000064: Dolgellau - Gogledd	61.8

Ynys Môn (8)

W05000026: Llannerch-y-medd	69.9
W05000006: Bodorgan	68.3
W05000025: Llanidan	65.1
W05000019: Llanddyfnan	64.7
W05000002: Porth Amlwch	64.5
W05000021: Llanfaethlu	64.4
W05000029: Mechell	61.1
W05000001: Aberffraw	60.4

Ceredigion (2)

W05000394: Tregaron	66.9
W05000379: Tref Llandysul	63.5

Sir Gaerfyrddin (5)

W05000505: Cwarter Bach	68.7
W05000504: Pontyberem	67.4
W05000495: Llan-non	64.2
W05000477: Gorslas	64.1
W05000502: Penygroes	62.2

Conwy (4)

W05000132: Llangernyw	65.8
W05000128: Gwyr	63.5
W05000134: Llansannan	63.0
W05000148: Uwch Conwy	60.7

Sir Benfro (1)

W05000950: Crymych	60.3
--------------------	------

Castell Nedd/ Port Talbot (1)

W05000575: Brynaman Isaf	60.8
--------------------------	------

3. Adrannau Etholiadol - siaradwyr Cymraeg 40% - 59% - 135 adran etholiadol mewn 9 sir (Categori 2 Canolig: 40-59%)

Gwynedd (14)

5000096: Pentir	58.7
5000099: Porthmadog - Gorllewin	57.0
5000056: Corris/Mawddwy	55.8
5000072: Harlech	54.1
5000077: Llanbedrog	54.0
5000061: Dewi	52.6
5000053: Bryn-crug/Llanfihangel	52.1
5000070: Glyder	51.7
5000076: Llanbedr	50.8
5000087: Marchog	50.2
5000066: Dyffryn Ardudwy	47.4
5000073: Hendre	45.3
5000045: Abersoch	43.5
5000044: Abermaw	41.5

Ynys Môn (22)

5000036: Rhosyr	59.3
5000039: Tysilio	59.2
5000020: Llaneilian	58.9
5000882: Cwm Cadnant	57.5
5000887: Pentraeth	54.8
5000040: Fali	54.7
5000003: Amlwch Wledig	54.3
5000017: Llanbadrig	52.4
5000030: Moelfre	52.3
5000022: Llanfair-yn-Neubwll	50.5
5000032: Parc a'r Mynydd	50.4
5000009: Brynteg	48.7
5000024: Llangoed	48.4
5000010: Cadnant	47.4
5000886: London Road	45.3
5000884: Llanbedrgoch	43.9
5000883: Kingsland	42.9
5000028: Maeshyfyd	40.6
5000031: Morawelon	40.4

Ceredigion (31)

5000357: Aberaeron	59.9
5000386: Llanwenog	59.2
5000359: Aberteifi-Mwldan	58.8
5000396: Ystwyth	58.3
5000384: Llanrhystyd	57.7
5000381: Llanfihangel Ystrad	56.9
5000393: Trefeurig	56.5
5000360: Aberteifi-Rhyd-y-Fuwch	55.8
5000391: Pen-parc	55.0
5000382: Llangeitho	54.9
5000392: Tirymynach	54.8
5000377: Llandyfriog	54.7
5000387: Lledrod	54.3
5000371: Ciliau Aeron	54.0
5000380: Llanfarian	54.0
5000367: Beulah	52.9
5000370: Ceulanamaesmawr	52.9
5000385: Llansantffraid	51.6
5000395: Troedyraur	50.9
5000378: Llandysilio-gogo	50.8
5000369: Capel Dewi	50.7
5000374: Llanarth	50.7
5000388: Melindwr	49.4
5000383: Llangybi	49.0
5000390: Penbryn	48.5
5000361: Aberteifi-Teifi	46.9
5000373: Llanbedr	46.9
5000358: Aberporth	44.4
5000389: Ceinewydd	41.5
5000375: Llanbadarn Fawr-Padarn	40.9
5000368: Borth	40.6

Sir Gaerfyrddin (35)

5000474: Glanamman	59.8
5000476: Glyn	58.9
5000494: Llangyndeyrn	58.8
5000497: Llanybydder	58.6
5000473: Garnant	58.5
5000483: Llanddarog	57.8
5000489: Llanfihangel-ar-Arth	57.5
5000486: Llandybie	57.0
5000457: Abergwili	55.7
5000490: Llangadog	55.7
5000491: Llangeler	54.5
5000508: Saron	54.4
5000468: Cynwyl Elfed	54.3
5000487: Llanegwad	53.5
5000510: Trelech	53.5
5000459: Betws	53.4
5000503: Pontaman	53.0
5000488: Llanfihangel Aberbythych	51.6
5000511: Trimsaran	50.4
5000484: Llandeilo	50.3
5000506: Sanclêr	50.3
5000458: Rhydaman	49.9
5000466: Cenarth	48.8
5000482: Llanboidy	48.7
5000507: Llanismel	48.7
5000500: Manordeilo a Salem	48.2
5000493: Llangynnwr	48.0
5000512: Ty-croes	47.1
5000469: Cynwyl Gaeo	46.7
5000467: Cilycwm	46.0
5000480: Cydweli	44.4
5000496: Llansteffan	44.2
5000478: Hendy	43.8
5000514: Hendy-Gwyn-ar Daf	42.4
5000485: Llanymddyfri	40.3

Conwy (8)

5000121: Crwst	59.6
5000123: Eglwysbach	54.3
5000113: Betws-y-Coed	50.3
5000139: Pandy	48.4
5000146: Trefriw	45.6
5000114: Betws yn Rhos	45.4
5000115: Bryn	45.0
5000116: Caerhun	41.9

Sir Ddinbych (7)

5000159: Llandrillo	59.2
5000156: Efenechtyd	53.7
5000163: Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	50.0
5000161: Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	48.3
5000151: Corwen	47.9
5000175: Rhuthin	41.7
5000153: Dinbych - Isaf	40.2

Sir Benfro (7)

5000402: Clydau	55.9
5000949: Cilgerran	51.7
5000951: Dinas	49.7
5000422: Maenclochog	47.9
5000448: Llandudoch	46.1
5000434: Trefdraeth	42.8
5000421: Llanrhian	42.1

Powys (8)

5000300: Glantwymyn	57.8
5000285: Banwy	56.0
5000330: Machynlleth	51.6
5000309: Llanbryn-mair	48.2
5000295: Cwm-twrch	46.2
5000354: Ynyscedwyn	45.9
5000318: Llanfihangel	43.0
5000325: Llanwddyn	42.7

Castell Nedd/Port Talbot (3)

5000567: Cwmllynfell	58.8
5000573: Gwaun-Cae-Gurwen	55.8
5000592: Ystalyfera	46.0

Atodiad B

Cryfhau polisi iaith ysgolion

Yn y sefyllfa ieithyddol sydd ohoni yng Nghymru, lle nad yw ond 7% o ddisgyblion Cymru'n derbyn y Gymraeg ar yr aelwyd, mae pwysigrwydd cynyddol i'r ysgol fel pau Gymraeg. Mae angen sicrhau bod nifer cynyddol o ysgolion yn gallu cynnig amgylchedd Cymraeg cyflawn i ddisgyblion. Gyda diflaniad cymunedau Cymraeg naturiol, mae gwir angen i ysgolion Cymraeg fod yn llawer iawn mwy na sefydliadau yn dysgu iaith neu drwy iaith, ond yn gymunedau cryfion diwylliannol.

Categoriâu ysgolion:

Nid yw'r Categoriâu ysgolion sydd wedi eu cynnig yn ddiweddar yn addas i'r diben. Mae hyn am ddau reswm:

1) Dim ond un categori, sef 3P, sy'n cynnig amgylchedd cwbl Gymraeg i 100% o'r disgyblion, a lle mae o leiaf 90% o'r dysgu a phrofiadau ysgol yn Gymraeg.

2) Caiff ysgolion sydd ar hyn o bryd yn dysgu dyweder 80% o bynciau trwy'r Gymraeg i 100% o'r disgyblion eu rhoi yng nghategori 3, lle 'bydd o leiaf 60% o ddysgwyr sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaid ac allgyrsiol) yn Gymraeg'. Bydd nifer fawr o ysgolion uwchradd, gan gynnwys y rhan fwyaf o ysgolion Gwynedd, yn perthyn i'r categori is hwn, gan wanhau'r sefyllfa bresennol.

Yn yr hen system gategoreiddio, roedd dau gategori ar gyfer ysgolion Cymraeg, sef:

Categori 1: 100% o'r disgyblion i ddilyn fwy neu lai 100% o'r pynciau trwy'r Gymraeg.

Dyma'r categori mwyaf cyflawn yn ieithyddol. Y patrwm yma sy'n sicrhau bod gallu ieithyddol disgyblion yn cael ei ddatblygu nes eu bod yn 18 oed. Mae disgyblion hŷn yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymreigio. Yn y categori yma, 'dyw hi ddim yn bosib', e.e., i ddisgyblion 6ed dosbarth ddewis astudio'r gwyddorau trwy'r Saesneg, a chreu 'uned' Saesneg yn yr ysgol.

Categori 2A: 100% o'r disgyblion i dilyn 80% o'r pynciau trwy'r Gymraeg.

Dyma yw/oedd y sefyllfa mewn llawer o ysgolion 'Cymraeg/dwyieithog'. Mae'r elfen 100% o ddisgyblion yn sicrhau bod holl weithgareddau allgyrsiol yr ysgol yn gallu digwydd yn Gymraeg, a Chymraeg yw unig iaith gweithgareddau ysgol-gyfan. Y gwendid ieithyddol yw'r modd y mae disgyblion yn gallu dewis pynciau gwyddonol, dyweder, yn y Saesneg ac yna ddilyn y rhan fwyaf o'u pynciau trwy'r Saesneg yn y chweched dosbarth, a thipyn cyn hynny. Mae hyn yn cyfleu sawl neges ieithyddol. Un ohonyn nhw yw mai Saesneg yw iaith pynciau'r byd modern.

Yna cafwyd Categoriâu 2B yn cynnwys ysgolion llawer is na 100% o ddisgyblion, 2 C yn wannach eto, a 3 yn ysgolion Saesneg.

Mae'r Categori 3 newydd yn gwanhau'n sylweddol ddarpariaeth ieithyddol yr hen gategori 2A. Lle roedd 2A yn gallu cynnig awyrgylch cwbl Gymraeg i 100% o ddisgyblion, nid yw hyn bellach yn ddisgwyliedig yng Nghategori 3. Gellid dadlau bod modd i'r Categori 3 newydd gynnwys nifer uwch o ysgolion yn y gobaith o'u denu i gynnig rhagor o bynciau a gweithgareddau trwy'r Gymraeg. Gwaetha'r modd, nid yw hyn yn rhwym o ddigwydd. Mae unrhyw gategori sy'n cynnwys llai na 100% o'r disgyblon yn golygu nad yw'r Gymraeg yn gallu bod yn unig iaith ysgol-gyfan.

Categoriâu Ysgolion Gwynedd, Môn a Cheredigion

O ran ysgolion Gwynedd, mae nhw ar hyn o bryd yn gweithredu'n gryfach na 60% o'r disgyblion yn astudio o leiaf 70% o'r pynciau trwy'r Gymraeg.

Mae'r Sir ar hyn o bryd am roi ei hysgolion yng Nghategori 3, nid 3P, sy'n golygu bod y categori a ddewisir ganddynt yn wannach na'r hyn a geir yn yr ysgolion ar hyn o bryd. Os bydd Gwynedd yn parhau i roi ei hysgolion yn y Categori 3 yma, gall agor y drws i rieni Saesneg hawlio mwy o Saesneg yn yr ysgolion hynny, gan nad oes angen i ryw 40% o'r disgyblion ddilyn unrhyw bynciau trwy'r Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae Môn am i'w hysgolion fod yng Nghategori 2, nid 3 hyd yn oed. Yng Nghategori 2, defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer 'cyfathrebu mewnol'. Disgwylir y bydd 40% o'r dysgwyr yn dilyn o leiaf 40% o'u gweithgareddau ysgol trwy'r Gymraeg. Mae hyn yn wanhad difrifol o'r hyn y byddai disgwyl i ysgol Gymraeg ei gyflwyno.

Mae canllawiau trosglwyddo'r Llywodraeth yn dra amheus. Ceir Categori A, lle y dysga o leiaf 80% o'r pynciau trwy'r Gymraeg i bob disgybl, ond ni all y rhain drosglwyddo i Gategori 3P, yn ôl diffiniad ysgolion 3P. Rhaid iddynt drosglwyddo i Gategori 3, lle mae 60% o'r dysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 70% o'r gweithgareddau trwy'r Gymraeg. Mae hyn yn debygol iawn o wanhau'r ddarpariaeth ieithyddol yn yr ardaloedd Cymraeg.

Newidiadau angenrheidiol : gweithredu gan y Llywodraeth

Mae angen 2 gategori i ysgolion lle mae 100% o'r disgyblion yn dilyn cyrsiau trwy'r Gymraeg:

Categori 1 A: Ysgolion lle mae 100% o'r disgyblion yn dilyn fwy neu lai 100% o'r pynciau trwy'r Gymraeg a'r Gymraeg yw iaith gyffredin gweithgareddau ysgol-gyfan a gweithgareddau allgyrsiol.

Categori 1B: Ysgolion lle mae 100% o'r disgyblion yn dilyn 80%+ o'r pynciau trwy'r Gymraeg a'r Gymraeg yw iaith gyffredin gweithgareddau ysgol-gyfan a gweithgareddau allgyrsiol.

Yna gellir cael amrywiadau ar Gategori 2, i gynnwys ysgolion 'dwyieithog' a rhai 'dwy ffrwd' presennol, e.e.

Categori 2A: Ysgolion 60% o'r disgyblion yn dilyn o leiaf 70% o bynciau trwy'r Gymraeg

Categori 2B: Ysgolion 40% o'r disgyblion yn dilyn o leiaf 60% o bynciau trwy'r Gymraeg

Categori 2C: Amrywiadau gwannach

Categori 3: Ysgolion lle y dechreuir cyflwyno rhai pynciau trwy'r Gymraeg i bob disgybl.

A derbyn bod rhai achosion penodol yng Ngwynedd o ran hwyrddyfodiaid, byddai modd cynnwys rhai is-gymalau o dan Gategori 1A ac 1B i gynnwys y rhain.
Mae angen i'r bil addysg Gymraeg arfaethedig gynnwys y categorïau uchod, ac nid y rhai a gyflwynir yn awr gan y Llywodraeth.

- Blaenoriaeth uchel - gweithredu tymor byr

Atodiad C

Cyfraddau Genedigaethau a Marwolaethau

CYNLLUNIO GWLAD A THREF

Buom yn gohebu â siroedd i ddehongli patrymau twf neu gwyp poblogaeth yn ôl cyfraddau genedigaethau a marwolaethau. Heblaw am siroedd y gorllewin a wnaeth ateb yn Gymraeg, cafwyd atebion Cymraeg i'n cwestiynau gan - Casnewydd, Torfaen, Dinbych, Flint, Powys, Caerffili, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, Wrecsam, Mynwy ac Abertawe.

Castell Nedd Port Talbot [CNPT] oedd yr unig awdurdod i ateb yn Saesneg.

Graddfeydd Geni/Marw:

Pwrpas cofnodi hyn yw canfod tuedd y boblogaeth ym mhob sir ac felly'r angen cyffredinol am dai yno. Nid yw hynny'n golygu nad oes angen mathau penodol o dai ar drigolion yr awdurdodau. Cafwyd ffigurau ar gyfer 2020 yn unig gan Nomis ar sail ffigurau y SYG/ONS Mae'n debygol bod elfen o ddyblygu yn y ffigurau felly gyda 2019/20. O'r un ffynhonnell y cafwyd ffigurau 2021

Cyfeiriwyd ni at wefan STATS Cymru gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau.

Dinbych [2021 Geni 919, Marw 1,341], [2020 Geni 897, Marw 1,338] [2019/20 Geni 926, Marw 1,195] [2017 Geni 979, Marw 1,220] [2016 Geni 1,012, Marw 1,258] [2015 Geni 1,045, Marw 1,146]

Ceredigion [2021 Geni 536, Marw 838] [2020 Geni 499, Marw 877] [2019/20 Geni 515, Marw 821] [2017 Geni 550, Marw 749] [2016 Geni 612, Marw 780]

Gwynedd [2021 Geni 1,039, Marw 1,368] [2020 Geni 1,026, Marw 1,428] [2019/20 Geni 1,061, Marw 1,419] [2017 Geni 1,127 – Marw 1,351] [2016 Geni 1,156, Marw 1,318]

Môn [2021 Geni 592, Marw 910] [2020 Geni 583, Marw 877] [2019/20 Geni 590, Marw 814] [2017 Geni 659, Marw 801] [2016 Geni 716, Marw 821]

Caerfyrddin [2021 Geni 1,540, Marw 2,592] [2020 Geni 1,660, Marw 2,404] [2019/20 Geni 1,744, Marw 2,202] [2017 Geni 1,817, Marw 2,230] [2016 Geni 1,878, Marw 2,266] [yr un patrwm ers 2001/2]

Penfro [2021 Geni 1,010, Marw 1,582] [2020 Geni 1,025, Marw 1,559] [2019/20 Geni 1,035, Marw 1,470] [2017 Geni 1,113, Marw 1,501] [2016 Geni 1,113, Marw 1,435]

Powys [2021 Geni 1,054, Marw 1,770] [2020 Geni 1,022, Marw 1,725] [2019/20 Geni 1,035, Marw 1,470] [2017 Geni 1,109, Marw 1,595] [2016 Geni 1,179, Marw 1,561]

Castell Nedd- Port Talbot [2021 Geni 1,249, Marw 1,839] [2020 Geni 1,257, Marw 1,902] [2019/20 Geni 1,373, Marw 1,572] [2017 Geni 1,454, Marw 1,648] [2016 Geni 1,519, Marw 1,690]

Conwy [2021 Geni 921, Marw 1,625] [2020 Geni 963, Marw 1,587] [2019/20 Geni 984, Marw 1,548] [2017 Geni 1,016, Marw 1,548] [2016 Geni 1,050, Marw 1,470]

Ond i'r gwrthwyneb oedd y ffigurau yng Nghasnewydd, Caerdydd a Chaerffili yn 2018.

Tai Gwag:

Mae sawl diffiniad o "dai gwag" fel y nodwyd gan Torfaen a Môn. Bwriad y cwestiwn yw gweld beth sydd eisoes ar gael yn y siroedd, cyn mynd ati i adeiladu miloedd o dai ychwanegol yn y Cynlluniau Datblygu Lleol.

Ffigurau ar gyfer "ail gartrefi" a "gwag hir dymor" yn Nhachwedd 2020

Cyfanswm y tai gwag taladwy hir dymor 2020/21/ *Total Chargeable long term empty houses*

Casnewydd - cartrefi preifat yn wag am mwy na 6 mis - 1,293 yn Ebrill 2016
CNPT - Cofrestr Treth y Cyngor yn nodi 2,164 o dai gwag : gwag hir dymor 1,350
Ail gartrefi 522
Torfaen - 244 o eiddo gwag hir dymor
Dinbych - Gwag hir dymor 783 Ail gartrefi 422
Conwy - Gwag hir dymor 991 Ail gartrefi 1,182
Fflint - Eiddo di-breswyl sydd yn talu Treth y Cyngor ar Fedi 28 2017 oedd 1,293
Powys - Eiddo preifat wedi'u cofrestru fel eiddo gwag am fwy na 6 mis - 942 [2022/3]
Gwag hir dymor 975 [2018] Ail gartrefi 1313 [2018]
Caerffili - Gwag hir dymor - 1,441 o dai preifat am 6 mis+ a 125 am 5 mlynedd+
[Mawrth 2020]
Blaenau Gwent - 4.5%
Rhondda Cynon Taf - Eiddo preifat wedi'u gofrestru'n wag am fwy na 6 mis - 2,016
Wrecsam - Ar gofrestr Treth y Cyngor 1,618. Yn cynnwys tai preifat, tai cyngor a thai
cymdeithasol
Penfro - 2022 - 1,438 wedi'u heithrio o Dreth y Cyngor am eu bod yn wag a 1,315
Gwag hir dymor. Ail gartrefi 4,072
Mynwy - Cofrestr Treth y Cyngor yn nodi 1,654
Abertawe - Gwag a heb gelfi am 6 mis a mwy - 2,204
Ceredigion - 891 "mae'r rhif yma yn cynrychioli tai gwag yn unig, ac nid ail gartrefi"
Gwag hir dymor 867 Ail gartrefi 1,735
Caerfyrddin 2,354 eiddo gwag yn y sector preifat [Ebrill 2020] ...gwybodaeth
Cyngor Sir Gwag hir dymor 2,883 Ail gartrefi 1,125
Môn - [yn nodi 3,124 mewn nifer o gategoriâu gwahanol] Gwag hir dymor 378
Ail gartrefi 2,112
Gwynedd - 1,140 eiddo gwag Gwag hir dymor 1,189 Ail gartrefi 4,900
Bro Morgannwg - 846 o dai gwag hir dymor [erthygl papur newydd Gorffennaf 2019]

Cynlluniau Datblygu Lleol:

Bwriad y cwestiwn oedd gweld faint o dai y bwriadwyd eu hadeiladu yn y Cynlluniau
Datblygu Lleol ac yna cymharu hynny gyda'r cyfanswm ar ddiwedd y cyfnod. Byddai
hyn yn dangos pa mor realistig yw'r gyfundrefn bresennol sydd yn seiliedig ar
amcanestyniadau canolog Llywodraeth Cymru. .

Casnewydd 2011-2026 Bwriad i adeiladu 10,350 o dai
Torfaen 2006-2021 Bwriad i adeiladu 4,700 o dai
Dinbych 2006-2021 Bwriad i adeiladu 7,500 o dai [rhwng 2006 a Ionawr 2019
2,737 wedi eu hadeiladu] [CDLL 2021-2036 yn argymhell tua 3,000 o dai]
Caerffili 2006-2021 Bwriad i adeiladu 8,625 o dai [ond yn crybwyll 10,269 o
aneddau newydd i ganiatau hyblygrwydd]
Blaenau Gwent 2006-2021 Bwriad i adeiladu 3,500 o dai [Fodd bynnag, roedd y
cynllun yn ystyried y gyfradd swyddi gwag]
Rhondda Cynon Taf 2006-2021 Bwriad i adeiladu 14,385 o dai. Erbyn diwedd 2017,
dylai 10,549 fod wedi eu cwblhau, ond 5,361 "o aneddiadau wedi'u cwblhau yn
Rhondda Cynon Taf erbyn diwedd 2017"
Wrecsam 2013-2028 Bwriad i adeiladu 11,715 o dai [Rhwyng Ebrill 2016 a Ebrill
2017 adeiladwyd 328 o dai]

Mynwy Bwriad i adeiladu 4,950 [ni nodwyd cyfnod y CDLI]
Abertawe Bwriad i adeiladu 20,106 o dai [ni nodwyd cyfnod y CDLI]
CNPT 2011-2026 Bwriad i adeiladu 7,800 o dai [rhwng 2006 a 31 Mawrth 2022 adeiladwyd 2,457]
Gwynedd/Môn 2011-2026 Bwriad i adeiladu 7,184 o dai [heb gynnwys ardal Parc Cenedlaethol Eryri] [Llywodraeth Cymru – Gwanwyn 2020 yn nodi 2,577 o dai wedi eu hadeiladu]
 Gwynedd 2022 1.037 unedau preswyl ers mabwysiadu'r CDLI yn 2017 358 yn rhai fforddiadwy
Ceredigion 2007-2022 Bwriad i adeiladu 6,000 o dai [Llywodraeth Cymru – Gwanwyn 2020 yn nodi mai 1,841 o dai sydd wedi eu hadeiladu] [CDLI nesaf yn debygol o osod targed o 3,750]
Sir Gaerfyrddin 2006-2021 Bwriad i adeiladu 15,197 o dai [Llywodraeth Cymru yn nodi mis Mawrth 2020 mai 7,013 o dai sydd wedi eu hadeiladu]
Sir Benfro [ac eithrio ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro] 2011-2021 Bwriad i adeiladu 5,700 o dai [rhwng 2006 a Ionawr 2019 adeiladwyd 3,394 o dai]
 CDLI 2017-2033 Bwriad i adeiladu 6,800 o dai [targed 2,000 o dai fforddiadwy]
Powys 2011-2026 Bwriad i adeiladu 4,500 o dai [rhwng 2006 a Ionawr 2019 adeiladwyd 2,436 o dai] Anelu at 952 o dai fforddiadwy [gwybodaeth 2022]
Conwy 2007-2022 Bwriad i adeiladu 6,520 [rhwng 2006 a Ionawr 2019 adeiladwyd 2,361 o dai] Amcangyfrif o 3,855 erbyn diwedd cyfnod y CDLI.

Parciau Cenedlaethol Cymru:

Parc Cenedlaethol Eryri 2016-2031 Conwy yn nodi yng Ngorffennaf 2019 bod 116 o dai wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy. Targed o 885 o anheddau yn y CDLI cyfredol. Yn y cynllun blaenorol, 2007-2022 cwblhawyd 513 o anheddau [cyfartaledd 43 y flwyddyn]

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2010-2021

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2007-2022 Tai Gwag 3,937 “o leoedd aelwyd heb unrhyw breswylwyr arferol yn 2011”. Cynnwys lleoedd aelwyd gwag ac “ail gyfeiriadau”

Cyfanswm tai – tua 962 a tua 960 yn y CDLI nesaf.

** Siroedd a Parciau Cenedlaethol a danlinellwyd yn cynnwys cymunedau â mwy na 25% o siaradwyr Cymraeg sef categorïau 1, 2, 3 yn ein hymateb i Gomisiwn Cymunedau Cymraeg. Ffigurau Llywodraeth Cymru ar gyfer tai a adeiladwyd yn y siroedd hyn rhwng 2006 a 2019 **

Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- *i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld*
- *i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny*
- *(o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu*
- *(o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'*
- *(o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data*
- *i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.*

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data

Y Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: [Gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#)

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ni fydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud oni bai ei fod yn cael ei wneud o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal mewn modd priodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Dylech hefyd wybod am ein dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.